Cyfres yr 20fed Ganrif.

RHYDDID, GWIRIONEDD CARIAD.

Yr Ymofynydd

Cyf. 9. Rhif 11.] TACHWEDD, 1909. [Pris 2c.

CYNWYSIAD.

Y Cyngor Eglwysig.
Y Beibl: yr hyn yw a'r hyn nad yw.
Parch. Joseph Wood.
O Fon i Fynwy.
Doethineb yr Hen Feirdd.
Cledlyn.
Mewn Capel Undodaidd.
At Ein Eglwysi.
Llith J.J.T.
Emynau Dr. Watts.
Priodasau.
Marwgofion.
Manion ac Hanesion.

Y GWIRIONEDD
A'CH RHYDDHA CHWI.

Argraffwyd gan J. D. Lewis, Gwasg Gomer, Llandyssul.

YR YMOFYNYDD.

Golygwyr—

T. ARTHUR THOMAS, Llandyssul, a SARNICOL, County School, Abertillery.

Pris 2g. y mis; drwy y *Post*, 2s 6d y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy y *Post*.

Telerau i Ddosparthwyr, 13 am bris dwsin o gopiau.

Yr erthyglau i fod yn llaw y Golygwyr erbyn y 10fed o bob mis, a gohebiaethau eraill erbyn y 15fed. Gyrer y Farddoniaeth i Sarnicol, County School Abertillery, Mon.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. LEWIS, Swyddfa'r "Ymofynydd," Llandyssul.

Ar werth yn Swyddfa'r 'Ymofynydd.'

LLIN AR LIN:

Penodau'n Hanes a Chrefydd Israel,

— GAN Y —

Parch. J. JENKINS, B.A. (Gwili)

Mewn Llian, 2s. Trwy y Post, 2s. 2c.

ROBIN THE NEW STARCH

Reckitt's Blue.

ZEBRA GRATE POLISH.

YR YMOFYNYDD.

Cylchgrawn Misol y Gymdeithas Undodaidd Gymreig.

"*Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda.*"—*Paul.*

CYFRES NEWYDD.] TACHWEDD, 1909. [CYF. IX. RHIF 11.

Y CYNGOR EGLWYSIG

YN ABERTAWE.

CREDWN mai yn 1879 y bu'r Cyngor Eglwysig yn Abertawe o'r blaen. Yn ystod y deng mlynedd ar hugain sydd wedi myned heibio oddiar hyny, y mae llawer o gyfnewidiadau wedi cymeryd lle. Y mae Abertawe ei hunan wedi cyfnewid, ei phoblogaeth wedi cynyddu, ei masnach wedi helaethu, a'i dylanwad fel canlyniad wedi eangu'n ddirfawr, fel y gellir ei chyfrif heddyw, yn nesaf at Gaerdydd, y dref bwysicaf yn Nghymru.

I Abertawe, gan hyny, y gwelir y lluoedd Anglicanaidd yn tyru o bob parth o'r wlad, rhyw dair neu bedair mil o honynt, yn archesgobion, esgobion, offeiriaid o bob gradd, gydag urddasolion eraill, mewn ymddangosiad i gydymgynghori, ond yn fwy tebyg, mewn gwirionedd, i wneuthur *demonstration* mawr o blaid Eglwys Waddoledig Lloegr yn Nghymru. Nid anhawdd dyfalu'r prif achos fod y Cyngor yn Nghymru eleni. Y mae Mr. Asquith wedi ymrwymo i ddwyn Mesur Dadsefydliad a Dadwaddoliad ger bron y Senedd y tymor nesaf, ac felly yr ydys wedi chwythu y corn câd a gyru y wŷs allan i gasglu'r holl fyddinoedd yn nghyd i wrthdystio yn erbyn yr anfadwaith creulawn fel yr ystyriant ef; ac mae'r ffyddloniaid wedi *respondio* 'n ardderchog dda.

Fel y gellid dysgwyl i Gymry wneud, ni anghofiasant eu lletygarwch arferol. Yr oedd yr *hotels* yn orlawn, a drysau, nid yn unig yr Eglwyswyr, ond eiddo yr Anghydffurfwyr hefyd wedi eu taflu yn agored led y pen. Mae'n dda gweled dynion yn anwybyddu'r ysbryd enwadol, pe dim ond am wythnos. Gall fod yn help iddynt ddeall yr ymadrodd—"Dedwydd yw rhoddi yn hytrach na derbyn."

Ystyriwn safle'r Cyngor yn ngolwg y wlad, dysg y llefarwyr, a phwysigrwydd rhai o'r pynciau fu dan drinaeth, yn rheswm digonol dros osod colofnau'r YMOFYNYDD o dan ychydig o dreth y mis hwn. Mae'n ddiameu i rai o'r pynciau pwysicaf y dichon y meddwl dynol ymwneud â hwy fod dan sylw, a hyny gan rai o ddysgedigion penaf ein gwlad. Os bu pwnc Dadgysylltiad ormod i'r ffrynt yn ngolwg rhai o honom, o'r braidd y gallwn synu, pan ystyriwn wendid naturio

plant Adda, oblegid yr oedd y pwnc yn myned yn agos iawn i'r boced; eto rhaid addef i yspryd dilynwyr Demetrius y gof arian ar y cyfan gael ei gadw yn ngafael y ffrwyn mewn modd canmoladwy. Gwir i un neu ddau feallai ddangos tuedd i roi cic; un yn unig soniodd am y "*Chapel Screw*"—peth na ŵyr Anghydffurfiaeth, a dweyd y gwir, nemawr ddim am dano.

Yr oedd y pregethau yn ddysgedig ac yn nerthol, ac oddiar y safbwynt eglwysig yn bobpeth y gellid ei ddisgwyl; er fod Anghydffurfiwr Cynulleidfaol oedd yn bresenol, wrth eu cyferbynu âg eiddo enwogion ei enwad ei hunan, yn naturiol yn rhoddi'r flaenoriaeth i'r olaf. Pregethu oedd y Dr. Campbell Morgan o flaen y "Free Church Council" i bechaduriaid, ond pregethu i'r "Church Congress" oedd Archesgob Canterbury. Felly y gwnaed hefyd gan y pregethwyr eraill. Un eisiau mawr yn yr oll oedd, mwy o arwyddion tân argyhoeddiad. Talwyd llawer i deyrnged o barch i Gymru. Yn un peth fe ddywedwyd mai'r Eglwys Gymreig oedd y peth byw hynaf yn Nghymru. Awgrymwyd y dymunoldeb o gael mwy o gydymdeimlad a mwy o gydweithrediad. Addefwyd fod gan y ddwy ochr yn gyffelyb ddelfrydau (*ideals*) ardderchog; ond yr oedd Eglwys Sefydledig—wrth gwrs, wrth gwrs—yn angenrheidiol! Cwyd y gofyniad yn naturiol, Pa ddiben canmol oni wneir rhyw ymdrech o'r ddau tu i gael gwell dealldwriaeth? Pe deuai'r ddwyblaid yn nes at eu gilydd, a phe ceisient ddeall eu gilydd yn well, byddai mwy o obaith am yr undeb a'r brawdgarwch hyny y dymunai'r Athraw ffynu yn yr eglwys.

Galerid oblegid y cynydd yn yr esgeulusdod o'r addoliad cyhoeddus, ac hefyd oblegid tâl anghyfartal y weinidogaeth, a'r anhawsder oedd wedi codi oblegid cynydd yr iaith Saesneg. Cyfeiriwyd dipyn yn ochelgar at y symudiadau diweddar mewn Gwyddor, a Duwinyddiaeth a Beirniadaeth Feiblaidd, a thalwyd sylw i amryw weddau o Athroniaeth. Cafwyd papyrau galluog ar Sosialiaeth, dros ac yn erbyn, ond dim ag y gellid ei gyfrif yn ymarferol gan y naill na'r llall. Cyfeiriwyd at lyfr dysgedig y Dr. William James o'r Amerig—"Varieties of Religious Experience," yr hwn a adolygwyd yn yr YMOFYNYDD rai blynyddau yn ol gan y Parch. Dr. Tudor Jones. Dywedir i rai o'r pynciau gael eu trin mewn modd rhy *academic*, hyny yw, dybygwn, mewn modd rhy gwsgbarol. Gwelwyd ambell i un y gellid dysgwyl gwell oddiwrtho yn pendwmpian dan eu dylanwad.

Papyr a greodd dipyn o *sensation* oedd eiddo y Dr. Stephen Paget ar

"CHRISTIAN SCIENCE."

Llefarai'r Dr. yn gryf ac yn groyw; ond yn anffodus ymddangosai ei iaith yn gryfach na'i resymau; yn debyg i eiddo'r Toriaid ar *Budget* Lloyd George! Ymosodai'n ffyrnig ar Mrs. Eddy, i'r hon y perthyn yr anrhydedd neu'r dianrhydedd o gychwyn y wyddor newydd. Dywedir fod ganddi haner miliwn o ganlynwyr yn yr Unol Dalaethau, yr hyn sydd yn awgrym cryf o'i dylanwad helaeth yn ogystal ag yn brawf tebygol fod yna rywbeth yn yr hyn a ddywed. Dichon ei bod

yn hawlio gormod i'r wyddor, a bod tipyn o'r yspryd cwacyddol yn bresenol ynddi. Nid oes dim o'r fath beth yn bod ag Eli pob Clwyf —*Universal Panacea*—i gyfarfod â holl anhwylderau bywyd. Er gwaethaf yr eithafoli wnaed unwaith, y mae elfen o addysg werthfawr yn Homoeopathy a Hydropathy; ac os yw Dr. Paget yn pentyru anair yn ormodol ar Mrs. Eddy, nid yw wrth hyny ond yn galw i fod bleidwyr eraill o'i thu. Ceir erthygl ddyddorol gan J.B. mewn rhifyn diweddar o'r "Christian World," ac un arall yn rhifyn Hydref yr "Hibbert Journal," yn dwyn y penawd, "The Christian Religion as a Healing Power," y ddau yn alluog ac yn cydnabod fod yna wirionedd pwysig wrth wraidd y wyddor. Busnes y dyfodol fydd cael allan derfynau gweithrediadau y wyddor.

Pwnc arall a gafodd gryn lawer o sylw oedd

AWDURDOD MEWN CREFYDD;

ond o'r braidd y gallwn ystyried i'r naill na'r llall o'r papyrau gyrhaedd penderfyniad boddhaol a therfynol. Fel y gŵyr ein darllenwyr, y mae'r Pab yn awdurdod terfynol i'r Pabyddion, a'r Beibl i'r Protestaniaid. Ni ystyrid y rhai hyn yn hollol foddhaol gan bob un. Mewn ffordd gyffredin, wrth gwrs, ystyriwn y dyn hwnw yn awdurdod ar y pwnc sydd wedi bod yn wrthrych ei fyfyrdodau—Herschell ar Seryddiaeth, Lyell ar Ddaeareg, Darwin, Tyndall, Huxley, Balfour, Stewart, &c., ar y pynciau sydd wedi bod yn wrthrychau sylw ganddynt hwy; Driver, Cheyne, &c., ar Feirniadaeth Feiblaidd. Ond nid oes neb yn awdurdod i neb ar ddim yn mhellach nag y bydd yr hyn a ddywed yn gymeradwy i reswm a deall a chydwybod y dyn ei hunan. Fe ddywed y seryddwr y bydd planed Halley yn weledig i'r llygad noeth yn mis Rhagfyr—o'r goreu; ond os na fydd, beth wedi 'n? Fe ddywedodd Adams a Leverrier fod planed arall y tu hwnt i Uranos; ni wyddai neb hyny o'r blaen, ond yr ydym yn credu hyny heddyw, am nad oes genym un rheswm dros beidio. Fe ddywed rhai heddyw mai Iesu yw yr awdurdod terfynol mewn crefydd. Addefwn ef yr awdurdod *allanol* uwchaf y gwyddom am dano; derbyniwn ei addysgiadau mor bell ag y maent yn cydfyned â gofynion ein rheswm, a'n deall, a'n cydwybod. Ond fe briodolir llawer i Iesu heddyw na fedrwn ni ei dderbyn. I ni, yr awdurdod *terfynol* yw'r galluoedd a'r cyneddfau y doniodd Duw ni â hwy. Ni allwn ni dderbyn dim sydd yn croesi gofynion y galluoedd y planodd Duw ei hunan ynom.

Fe ddealla'r darllenydd na fwriedir i'r adolygiad hwn wneud dim ond rhoi cipolwg brâs ac amherffaith iawn ar weithrediadau y Cyngor Eglwysig yn Abertawe. Llawen genym ddeall fod yr oll wedi troi allan yn llwyddiant ac yn llawenydd mawr. Gobeithiwn y try allan hefyd yn lles cyffredinol ac yn foddion yn llaw Duw i ddwyn gwahanol gangenau yr Eglwys Filwriaethus i fwy o undeb a chyd-ddealltwriaeth, fel y byddo'r gogoniant i Dduw.

B.C.D.

Y BEIBL: YR HYN YW A'R HYN NAD YW.

Gan y Parch. Joseph Wood

I.

Beiblau Mawrion y Byd—(*Parhad*).

PA rai ydynt Feiblau mawrion y byd? Maent yn chwech mewn nifer:—

I.—Vedas y Brahminiaid.
II.—Tripitika y Bwdiaid.
III.—Zend Avesta y Parsis neu y Persiaid.
IV.—Llyfr Cysegredig y Chineaid.
V.—Koran y Mohametaniaid.
VI.—Ysgrythyrau yr Iuddewon a'r Cristionogion.

Mae wedi bod, ac y mae eto, lyfrau cysegredig eraill yn y byd; ond y rhai a enwyd yw y mwyaf pwysig. Byddai pob un o'r Beiblau hyn yn destyn dyddorol darlith. Rhaid i ni ymfoddloni yn awr âg ychydig eiriau am bob un.

I.—Vedas y Brahminiaid yw llyfrau cysegredig Hindwaeth. Cynwysant amryw gasgliadau o emynau a genir mewn gwasanaethau ac offrymau crefyddol, a dywed yr Athraw Max Müller y gellir eu holrhain yn ol cyn belled a'r flwyddyn 1200 cyn Crist. Llenyddiaeth fawr cenedl yw y Vedas tebyg i'n Beibl ni, ond yn llawer mwy. Fel yn ein Beibl ni, ceir ynddynt chwedloniaeth a gwyrthiau, salmau ac ymadroddion proffwydoliaethol. Rhaid i ni gofio fod chwe' ugain myrddiwn o bobl yn parchu y Vedas hyn fel gair Duw, a chreda'r Brahminiaid eu bod wedi eu hysbrydoli mor gyflawn gan Dduw nes y bodolent yn ei feddwl cyn dechreu amser. Golyga y gair "Vedas" wybodaeth, doethineb.

II.—Zend Avesta, llyfrau cysegredig y Parsis, a briodolir i Zoroaster, sylfaenydd crefydd y bobl hyny. Bodolai ac addysgai Zoroaster dros dair mil o flynyddau yn ol, ac yr oedd rhai o ddynion godidocaf yr hen fyd, megys Cyrus a Darius, yn ddisgyblion iddo. Dynoda Zend Avesta "ysgrythyr," ac y mae yn debygol i'r llyfr gael ei gasglu at ei gilydd gan Zoroaster o hen draddodiadau, hen chwedlau ac emynau, ond iddo ef ychwanegu amryw ymadroddion o'i eiddo ei hun. Anhawdd yw gor-brisio teilyngdod y Zend Avesta fel tywysydd i un o'r hen grefyddau puraf ac ardderchocaf. Un Duw yn unig a addolai y Parsis. Dysgent fod y Duwdod yn un ac yn anranadwy.

Dysgid y dysgybl i fod yn bur mewn meddwl, gair, a gweithred; erchid iddo i fod yn gymedrol, yn ddiwair, yn eirwir, ac i wneud pob peth a ychwanegai at ffyniant dynolryw. Ni chai dynion ymgrymu o flaen galluoedd y tywyllwch, nac yswatian gerbron gormeswyr; rhaid iddynt eu cyfarfod ar eu traed, a'u dyrysu â gwrthwynebiad di-droi-'n ol, ac â swyn bywyd sanctaidd. Y Parsis oeddent y cyntaf i ddysgu yn bendant anfarwoldeb yr enaid—athrawiaeth na wyddai yr Iuddewon ddim am dani hyd nes iddynt ddyfod i gyffyrddiad â'r Persiaid, a'u dull o feddwl.

III.—Tripitika y Bwdiaid sydd Feibl crefydd y mae ei chanlynwyr yn fwy lluosog na chanlynwyr un grefydd arall yn y byd. Tyfodd allan o hen grefydd yr Hindwaid, a sefydlwyd hi gan Bwda, gwr o linach breninol, a flodeuai o gylch y flwyddyn 628 cyn Crist. Gelwir ef weithiau yn Gautama, a phryd arall yn Sakya-muni. Er mwyn i chwi gael darlun prydferth o'r dyn ardderchog hwn—y tebycaf i Grist o holl athrawon yr hen amser—cynghoraf chwi i ddarllen cerdd fawr Edwin Arnold, a elwir "Light of Asia." Gelwir ysgrythyrau y Bwdiaid yn "Tripitika," neu y "tair cawell," am y rheswm eu bod yn dair rhan. Y "Pitika," neu'r gawell gyntaf, a rydd reolau i hyfforddi; yr ail gawell, bregethau Bwda; ac ymdrinia'r drydedd âg athroniaeth a chyfrinion dyrus crefydd. Cafodd geiriau Bwda, a drosglwyddwyd i lawr o oes i oes, ac a gedwid ar glawr yn unig trwy gael eu cofio gan y bobl, eu hysgrifenu o'r diwedd. Ceir yn y Tripitika lawer o'r hyn na lefarwyd erioed gan Bwda; ond edrychir arno yn yr un goleu ag yr edrychwn ni ar y Beibl. Bwdiaeth oedd crefydd y wladwriaeth yn Judea am naw canrif; hyhi yw un o grefyddau China; hi hefyd yw crefydd Tibet, Japan a Ceylon; ac y mae'r Tripitika, yr un fath a'r Beibl, wedi eu cyfieithu o'r gwreiddiol i luaws mawr o ieithoedd y dwyrain. Gwna y Tripitika, yn nghyda'r esboniadau arnynt, lenyddiaeth sydd bum' neu chwe' gwaith gymaint a'n Beibl ni. Y meddylrych a nodwedda Fwdiaeth yw cadwedigaeth yr enaid rhag drwg, a rhag cyfnewidiadau bywyd trwy fyfyrio ar wirionedd a daioni, ac yn y diwedd trwy ymdoddiad yr unigolion yn y Bôd Cyffredinol.

IV.—Cynwysa Llyfrau Cysegredig China "Y Pum' Brenin" a'r "Pedwar Shoo," hen emynau, chwedloniaeth, &c., a gasglwyd at eu gilydd gan Confucius, ac a helaethwyd gan ei bregethau ef ei hun. Y dyn mawr hwn, a ddifenwyd yn ystod ei oes, ond dylanwad yr hwn sydd yn awr yn tywys canoedd o fyrddiynau trigolion China, a aned yn y flwyddyn 531 cyn Crist, ychydig flynyddau cyn marw Bwda. "Brenhinoedd" y gelwir y llyfrau cysegredig a olygwyd ganddo, ac ystyrir hwy fel edafedd "stofi" mewn darn o wëad. Dysgant fod un Bôd Goruchaf yn bresenol yn mhobman, yn gweled yr oll, yn erchi purdeb meddwl, uniondeb gweithred, a gwyliadwriaeth barhaus ar yr ymadroddion. Dysgant y cyfryw barch at y gorphenol sydd ar lawer ystyr yn slafaidd; ond dysgant hefyd ddyledswydd i'r presenol a wna o'r Chineaid y dynion mwyaf heddychol a theyrngarol ar wyneb y ddaear.

V.—Y Koran—Beibl Islam,—gwaith Mohamed, a gynwys ddetholion ac hanesion o'r Ysgrythyrau Iuddewig, yn nghyda nifer fawr o chwedlau perthynasol i'r dwyrain, ac hefyd freuddwydion a dywediadau Mohamed ei hun. "Islam"—"y gwr cyfiawn"—yw yr ieuengaf o grefyddau mawrion y byd; ac am y rheswm ei bod mor ifanc y galluogir ni i weled y modd y mae ei haddysg syml wedi ei chuddio o'r golwg gan lu o chwedlau ac ofergoelion ffol. Er engraifft, er i Mohamed ddyfod i'r byd fel plant eraill, dywedid a chredid fod rhyfeddodau anhygoel bron wedi cymeryd lle ar ei enedigaeth: dywed un chwedl i angelion ei gymeryd o freichiau ei famaeth, iddynt dynu ei galon o'i fynwes, a gwasgu o honi y dyferyn du o bechod gwreiddiol sydd yn mhob plentyn Adda. Ganed ef 571 o flynyddau ar ol Crist, ac o fod yn yrwr camelod ymgododd i fod yn un o alluoedd mwyaf y byd. Am ddeugain mlynedd pregethodd y gwirionedd mawr—"Nid oes dduw ond Duw." Athrawiaeth fawr y Koran yw mai un yw Duw ac nid tri; ac yn nesaf at y gwirionedd hwn dysgir ymostyngiad i ewyllys Duw. Golyga Koran "darllen."

Nid oes genyf amser i ddangos i chwi y lluaws ymadroddion tebyg a geir yn y gwahanol Feiblau hyn: sut y maent i gyd yn llawn o hanesion am wyrthiau; sut y dysgant gyffelyb ddefodau ac aberthau; sut y mae'r syniadau am genedliad gwyrthiol a genedigaeth o forwyn yn nodweddu crefyddau a Beiblau eraill yr un fath a'n crefydd a'n Beibl ni; sut mae'r drychfeddwl o Fesseia i'w gael hefyd yn y Vedas ac yn Ysgrythyrau China; a sut mae hyd yn oed yr un seremonïau yn nodweddu rhai o'r crefyddau hyn. Pan aeth y cenhadon Cristionogol cyntaf i blith y Bwdiaid, synid hwynt wrth weled y grefydd yno mor debyg i'w crefydd eu hunain yn eu defodau a'u seremonïau, hyd yn oed coryn pen yr offeiriaid wedi ei eillio, a'r *rosary* mewn ymarferiad, a'r unig ffordd y gallent gyfrif am y tebygolrwydd oedd trwy dybied fod y diafol wedi cael y blaen ar Dduw, wedi ei ragflaenu yno, ac wedi sefydlu ffug o grefydd mor debyg ag oedd yn bosibl i Gristionogaeth. Ond gallaswn ddangos rhagor i chwi. Gallaswn ddangos agweddau mwy tebyg fyth: y modd y maent i gyd yn dysgu purdeb, trugaredd, cyfiawnder, diystyru cyfoeth, gostyngeiddrwydd; fel nad oes gan unrhyw ffurf o ffydd hawlfraint mewn na ffydd na chariad, na gwirionedd, nac anhunanoldeb, na maddeuant camweithredoedd, nac amynedd, na gweddi, na'r syniad o frawdoldeb. Dysgir hwynt yn holl Feiblau mawrion y byd.

Nid wyf yn dweyd y dysgir hwynt mor glir ac mor ardderchog ag a wneir yn ein Beibl ni. Nid wyf yn hòni fod holl Feiblau mawrion y byd yn sefyll ar yr un safon, na bod eu haddysgiadau yn ogyfuwch. Mae yn y Beiblau hyn, yn gymysgedig â llawer sydd yn wir ac yn brydferth, lawer arall sydd yn ddiraddiol, yn ffol, ac yn ofergoelus. Yr hyn ddywedaf yw: fod Duw, nad pa enw a roddir iddo, o'r dwyrain fwyaf anghysbell i orwel mwyaf pellenig y gorllewin, wedi bod yn bresenol yn taflu pelydrau ei wynebpryd ar lwybr ei blentyn, a'i fod Ef mewn amryw genhedloedd tuallan i wlad yr Iuddew wedi codi proffwydi gwirioneddol iddo ei hun, y rhai a lefarasant y fath

eiriau grasol o wirionedd ydynt wedi cyffroi calonau pobl, wedi bod yn allu Duw i fywyd uwch a gwell, wedi cael eu cofio yn barchus gan ddysgyblion diolchgar, ac o'r diwedd wedi eu cadw ar glawr mewn llyfrau cysegredig. Y ffaith hon yw sylfaen y wyddor fawr, ddiweddar o grefydd gymhariaethol. Mae haen o sylwedd daearol yn rhedeg trwy bob un o'r llwybrau cysegredig hyn : cynwys pob un o honynt lygedyn o ddoethineb nefol ; mae pob un o honynt wedi helpu i loewi ffrydlif fawr y bywyd dynol fel y gweithia ei ffydd i'r môr.

Ni chydnebydd y gwahanol grefyddau hyn y naill y llall ; hawlia pob un fod ganddi y gyfran helaethaf o Dduw a gwirionedd ; mae pob un wedi gwadu y posibilrwydd i grefydd gael ffynonau tuhwnt i'w saint a'i phroffwydi ei hun. Ond mae pob peth sydd o wir werth—ac ni fuasent wedi parhau cy'd pe buasent i gyd yn gyfeiliornus—wedi dyfod o'r un ffynhonell—Ysprydoliaeth yr Hollalluog. Gwelir yn awr nad yw Duw yn Dduw llwyth, na chenedl nac eglwys, ond Duw yr holl ddaear ; ac er fod un genedl wedi ei meddianu â'r ymwybyddiaeth o Dduw i fesur llawnach na phob cenedl arall, ac mae'r fraint neillduol hono wedi esgor ar fendithion aruchel i bawb, er hyny yn mhob cenedl y neb sydd yn ofni Duw ac yn gweithredu cyfiawnder sydd gymeradwy ganddo.

O FON I FYNWY.

II.

Disgynodd nifwl Hydref ar fryniau Gwent. Y mae'r deri, yr ynn a'r ffawydd yn cuddio llenyrch rhuddgoch ar fynyddau Mynwy. Sudda'r haul yn gynar, gynar dros yr hen drum acw yn awr, ac y mae arian y lloer yn ddisglaer, ddisglaer yn yr hwyr, tra hithau Mawrth yn gwrido acw yn ffurfafen y dwyrain--gwrido gan bleser am ei bod mor agos i'w chwaer blaned y ddaear unwaith eto yn ei hanes. Y mae naws y rhew yn ngwynt yr hwyrnos. Er holl swynion Hydref, mŷn galar ddisgyn ar fy ysbryd yn nhymor syrthiad y dail ; y mae [cwymp

Cangau'r llwyn yn gŵyn i gyd,—wele
Dail y coed i'r gweryd ;
Awel auafol hefyd
Yrr iâs y bedd dros y byd.

Ond er niwloedd Hydref, a bygythion ystormydd y Gauaf sydd gerllaw, y mae rhyw gysur anferth gyda'r cyfeillion—

O gylch tân a'i wridog wres
Yn awr ganant mor gynes.

Eisteddaf finau yn fy nghadair freichiau wrth y tân coch, cynes, wrth oleu hyfryd y nwy—oblegid y mae rhyw brydferthwch hyd yn oed yn ngoleu'r nwy ar nosweithiau cynar Hydref. Cymeraf gyfrol o farddoniaeth yn fy llaw, a darllenaf fy hoff ddarnau drosodd a throsodd. Hoff genyf *Locksley Hall;* a darllenaf ddarn melodaidd Tennyson drwodd am y ganfed waith ; y mae barddoniaeth adgofion melusaf fy mywyd

wedi myned i fewn i linellau perorus y bardd. Oni adroddais y penillion ar y traeth yn nyddiau nwyfus fy ymchwiliad am ddysg? Oni chlywaf lais llu o'r hen, hen gyfeillion yn swn hyfryd y geiriau dihafal hyn? Hedaf ar edyn hiraeth i'r dyddiau fu, ac hedaf yn ol i'r dyddiau hyn, a gwelaf fy hun fel mewn gweledigaeth mwy ansylweddol na'r cof am danaf ugain mlynedd yn ol.

Wele fi fel Dante gynt—

"Ar ganol ffordd ein bywyd marwol hwn"—

wedi cyrhaedd trum uchaf bryn fy einioes, a llwybr y dringo o fy ol, yn arw a chreigiog mewn manau, yn wastad a llyfn am gryn bellder, ond fod ôl llithro a syrthio i'w weled arno bob troedfedd o'r ffordd. O fy mlaen y mae llethr niwliog y dyfodol, lle rhaid i mi ddisgyn, p'un mor araf, nis gwn; y mae'r gwaelod yn gudd dan gaddug y glyn. P'un ai dyffryn tywyll garw sydd obry dan blygion y niwl, neu gwm cul a thawel ac heddychol, nis gwn; pwy fedr beri i dynged godi ei llen? Ond wele fi, neu yn hytrach wele'r weledigaeth o fy hun, wrth y tân gwridog yr hwyr hwn o Hydref. Y mae'r hen awduron a garaf wrth law, a meusydd yr oesoedd yn agored o'm cylch, a mwynhaf fywyd yn ogystal ag erioed, a gwell. Clywaf gri y gwynt yn nghorn y simne, a thry ei wylofain yn fiwsig yn fy nghlust; try llawer wylofain yn gerdd pan fyddo trwch gwàl rhyngom ag ef.

Y mae cadair hefyd yr ochr arall i'r tân; gwelaf ynddi un a chanddi'r ddau lygad glâs a garaf oreu, a'i bysedd bychain gwynion yn ddiwyd wrth ryw wnïadwaith teuluaidd. Darllenaf, a myfyriaf, a breuddwydiaf, ond nis d'wed air i dori ar fy ngweledigaethau. Gwnïa, gwnïa yn ddiwyd a didwrf, a'i bysedd gwynion yn myned gyda chyflymdra rhyw beirianwaith trydanol. Nid oes fawr argoel fod henaint yn agoshau ati: y mae'r foch mor llyfn, y llygaid mor ddisglaer a chyflym, y llaw mor ystwyth a di-wythïen, y ffurf mor ieuanc, a'r gwallt mor ddu a phan ei gwelais gyntaf erioed, a hi yn eneth anwyl un ar hugain oed. Ac eto y mae hithau yn tynu at yr oedran y dechreuodd awdwr y Gân Ddwyfol grwydro drwy Annwn, a Phurdan, a Pharadwys, mewn ymchwil am wrthrych ei serch.

Nid oes angen geiriau i'n hasio mwyach. Onid ydym yn anadlu'r un awyr? Onid ydym yn cyd-gyfranogi o'r melus a'r chwerw a osodwyd o'n blaen ar fwrdd bywyd? Oni ŵyr hi fy nyheadau dyfnaf, ac oni ddeall hi fy angenion braidd cyn i mi eu teimlo fy hun? Onid oes i mi yn ei llygaid glâs gymaint llafar ag sydd gan wyneb y môr i'r hen forwr cyfarwydd? Onid yw ei grudd, a newidia i mi fel ffurfafen hâf, yn fynag perffaith o'r galon a gura dan ei bron? Nid oes angen geiriau rhwng Gwendolen a mi.

Myfyriaf, darllenaf, breuddwydiaf yn fy mlaen. Nid oes sŵn ond sŵn ambell i ddernyn o lô yn cracio ar y tân; y gath yn canu grwndi ar y *mat* wrth draed Gwendolen; a'r gwynt yn cwyno weithiau yn nghorn y simne. O leiaf nis clywaf fi ddim. Ond cyfyd Gwen yn ddisymwth; rhy 'r gwnïadwaith ar y bwrdd gan frysiog frathu'r nodwydd i'r defnydd gwyn; egyr y drws yn gyflym ond distaw, a rhed i'r llofft. Breuddwydiaf fi yn fy mlaen, gan wybod y cyfan a ddigwydd, heb symud o fy nghadair. Yn mhen amser, nis gwn pa faint, egyr y drws yn esmwyth, cerdd Gwendolen at ei chadair mor ddistaw a lledrith, ail ymafla yn ei gwaith ac eistedd i lawr.

"Enid fach oedd yn crio—wedi dihuno o ryw freuddwyd anhyfryd. Ond mae Geraint yn cysgu mor drwm nas dichon magnelau ei ddeffro."

"Ddarfu iddi gysgu eto, Gwen?"

"O do, ond nid cyn i mi roddi'r llyfr darluniau o'i blaen—iddi gael darllen, fel tada."

Ail ddisgynodd distawrwydd ar yr ystafell. Syrthiais yn ol i ail blŷg fy mreuddwyd. Gwelais Gwen a minau yn rhodio meusydd Sir Fynwy fel y gwnaethom gynt yn nyddiau melus ein cyfeillach gyntaf. Curodd fy

nghalon fel y gwnaeth pan yr ymeflais gyntaf yn ei llaw fach wen, gan ofyn iddi fod yn eiddof fi am byth. Duodd cwmwl uwch fy mhen fel y gwnaeth pan ddaeth amgylchiadau i'n gwahanu, fel y tybiwn, dros byth. Gwenodd yr haul arnaf fel y gwnaeth yr amser hwnw, a hi a minau yn min y môr, yn cyd-eistedd ar y graig ddisyfl, a'r cymyl uwchben yn wyn, ac ewyn y môr yn wyn, a hithau yn gwrido wrth fy ochr, i gyd yn ei gwyn. Daeth iâs hyfryd bore cysegredig y briodas droswyf, a holl gyfrinion hudol "breuddwyd y bardd."

Edrychaf i'r dyfodol; gwelaf flagur cynar y pren almon ar ei phen, ac ambell rych yn ymddangos ar ei boch. Aiff deng mlynedd heibio; y mae Geraint yn hogyn addawol pymtheg oed, ac Enid fach yn ddeuddeg. Y mae ganddi eisoes lygad glas ei mam, a gên fechan gron ei mam, ag osgo ysgafn ei mam pan ei gwelais gyntaf erioed. Yn unig mae gwallt Enid yn oleuach, a'i grudd ryw ychydig yn welwach. Argoelia fod yn dalach na Gwendolen. Yn ffodus, y mae Geraint wedi etifeddu hoenusrwydd ac yni ei fam, ond credaf fod yn ei lygad ryw ychydig o'r pylni breuddwydiol sydd yn nodweddu ei dad—pylni breuddwydiol sydd wedi peri llawer o bleser a llawer o ofid iddo hyd yn hyn. Pwy sydd a mab ganddo heb bryderu llawer yn ei gylch? Beth ddaw o'r bachgen hwn? Ai llyfr-garwr anymarferol a fydd fel ei dad, neu fachgen yn berchen synwyr cyffredin, a challineb ac yni a medr ei fam? Gobeithiaf mai'r olaf. Nid oes genyf foddion i'w godi'n feddyg na chyfreithiwr; o'r braidd y medraf ei wneud yn beirianydd—peth rhagorol yw bod yn *engineer;* os na ddiosg efe'r llèn freuddwydiol yna sydd dros ei ysbryd ofnwyf y tynghedir ef i fod yn ysgolfeistr ar hyd ei oes—ond hyderaf y bydd ffawd yn dirionach wrtho nag y bu wrth hen wr ei dad.

Wrth gwrs, dywed Geraint wrth ei fam mai ymchwiliwr pegynol a fyn fod—yr un fath a Dr. Cook a Peary. Ond unwaith y ca afael yn y pegwn, a dod yn ol, ac ysgrifenu ei lyfr a'i werthu, a gwneyd ei ffortiwn, y mae yn myned i aros gyda'i fam, heb ei gadael byth mwy. Y mae Geraint yn deall ei fam i'r tipyn; ac addola Enid ei thad. Gormod i nebun ar y ddaear hon yw cael ei ddeall a'i addoli hefyd.

Digon o dâl am henaint yw Gwendolen a Geraint ac Enid fach. Pa sut y medrais dreulio tair blynedd ar hugain o'm hoes heb weled Gwen, a mwy fyth heb weled wyneb Enid fach? Wrth edrych yn ol i dymhor cynar ieuenctyd, mor wâg yr ymddengys y blynyddau hebddynt hwy?

Darllenaf, myfyriaf a breuddwydiaf yn fy mlaen. Nis clywaf ond tinc y nodwydd ar y gwniadur, parabl y fflam yn y tân, sŵn y gath yn canu grwndi wrth draed Gwendolen, a chŵyn y gwynt yn y simne. Tôdd y llyfr a'm myfyrion a'm breuddwyd yn un. Darllenaf *Locksley Hall Sixty Years After;* myfyriaf ar fy henaint, ac ar wallt arian Gwendolen; breuddwydiaf freuddwydion y dyfodol pell. Gwelaf Geraint yn wr, ac Enid yn wraig; yr wyf yn henwr, a'i wyrion a'i wyresau—

"Mewn ymryson am ei gusan
A ymglyman' am ei glun."

Mae fy llygaid wedi pylu; ond drwy gymhorth gwydrau glynaf wrth fy hen awduron. Y mae breichiau fy nghadair yn loew gan ddefnydd blynyddau; yn hwyrnos bywyd mae'r tân yn felusach nag erioed; ac hyfryd genyf glywed, fel y gwynt yn y simne, gri ystormydd bywyd oddiallan—a mi wedi eu gadael er's talm i rai ieuengach ac hoenusach na mi. Y mae Gwen hithau a'i spectol am ei llygaid, a siriol deb henaint ar eu glâs, fel haul diweddar yr Hydref ar y môr. Y mae'r foch wedi pantu; y mae'r ên fu gron a llyfn wedi meinhau; y mae'r wefus a'm denodd gynt wedi gwelwi a chrino; y mae'r llais hyfryd, a'm swynodd fel miwsig o'r nef, ys llawer dydd, wedi crygu a gwanhau—i lygad y neb ond myfi nid yw ond olion maluriedig o'r hyn a fu; ond

mae y llais, a'r osgo, a'r foch, a'r llygad, a'r wefus, i mi, yn eiddo'r eneth un ar hugain oed a gwrddais gynt rhwng mynyddau Mynwy. Daw Olwen i eistedd ar fy nglin, a rhydd ei llaw am fy ngwddf, fel y darfu Enid gynt, pan oedd hi, fy merch, yn seithmlwydd oed. Clywaf sŵn Arthur yn chwareu o flaen y ty, a dug fi 'n ol i'r dyddiau pan oedd Geraint yn cadw'r ty yn fyw i Gwen a minau. Y mae'r blodau a'r plant yn cadw'r hen yn ieuanc fyth.

Gwelaf uchelgais fy oes wedi ei gyrhaedd, a mi 'n eistedd yn fy henaint heddychol, yn fy nghadair freichiau wrth y tân. Wele acw ar y silff gyfrol o'm barddoniaeth, wedi myned drwy'r ugeinfed argraffiad, a phlant Cymru yn adrodd fy mhenillion, a bechgyn a merched Gwlad y Bryniau yn canu fy nhelynegion nos y gyngherdd a dydd yr Eisteddfod. Y mae fy nofel fawr, "Y Ferch o Lan Teifi," yn cael ei darllen yn mhob cartref yn Nghymru, a'r cyfieithad Saesneg o honi a'r son am dano yn mhob *drawing-room* yn Llundain; ac y mae apêl wedi ei wneud at fy nghyhoeddwyr am ganiatad i'w gyfieithu i'r Ellmynaeg, y Ffrancaeg, yr Eidalaeg, ac amryw ieithoedd eraill. Yr wyf wedi bod yn achlysur i ffurfio Cynghor Cymreig o Feirdd a Llenorion ar ddull yr "Academie Française"—y "French Academy." Nid oes neb mwyach yn pendroni uwch peiriant y pedwar mesur ar hugain, nag yn gyru ei hun i wallgofrwydd anamserol drwy geisio casglu at ei gilydd draethawd yn pwyso ugain *pound* ar hirnos gauaf erbyn yr Eisteddfod Genedlaethol. Nid oes ond deuddeg aelod i Gynghor Llên Cymru; cynwysai'r dwsin cyntaf Brifathraw Coleg Aberdydd, Proffeswr Cymraeg Coleg Arfon, Mr. O. M. Edwards, a naw eraill o feirdd a llenorion Cymru; Eifion Wyn yn eu plith, awdwr y bryddest ogoneddus "Arthur," a restrir gan brif feirniaid y dydd yn mysg gweithiau Homer, Milton, Dante, a Shakespeare. Derbyniwyd Eifion Wyn i'r cylch ar farwolaeth yr hynaf o'r dwsin, sef "Iorwerth Glan Tywi," yn rhinwedd gwreiddioldeb ei waith a gogoniant newydd ei awen. Ac wele minau—yr anheilyngaf o'r "anfarwol ddwsin"—newydd fy ethol i gadair wâg "Ceinwen Glan y Môr," y farddones oreu fagodd Cymru erioed. "Y Ferch o Lan Teifi" fu'n foddion i'm harwain i'r cylch gogoneddus hwn.

Nid wyf yn bwriadu canu mwy; crogaf fy nhelyn ar helyg gwylaidd Ceredigion. Ac am ysgrifenu rhamant arall, gormod gwaith yw weithian. Y mae cysgodau'r hwyr wedi disgyn, a hoff genyf grwydro megis yn y dyddiau gynt ar rosydd Sir Aberteifi, neu hedeg yn fy mheiriant awyrol i làn y môr, a garaf mor fawr. Nid erys fawr o'm hen gyfeillion; y maent wedi cyrhaedd, y rhan fwyaf ohonynt, "Dawel làn, bro y goleuni." Caf eu cyfarfod yn y man; nid angau a'm herys mwyach, ond tawel groesi hafan gul i fyd o heddwch, lle ni raid ymadael mwy. Y mae'r ugeinfed ganrif wedi codi'r llèn oddiar y byd ysprydol gymaint ag y darfu'r bedwaredd ar bymtheg ddadorchuddio'r byd materol.

Gwelaf Mawrth drwy ysbienddrych 1950, a'i phlant, a'i choed, a'i blodau hyd finion ei chamlesydd ag arnynt urddas nas dych'mygwyd am dano erioed o'r blaen yn y byd is-loerawl hwn. Y mae wyneb y lloer mor amlwg i'r llygad ag yw'r Wyddfa o Ynys Môn. Mor rhwydd yw trafaelio hyd y ddaear y dyddiau diweddaf hyn. Y mae Pegwn y Gogledd wedi ei droi yn *sanatorium*, a Phegwn y Dê yn arsyllfa seryddol. Llynedd bu Geraint a'i wraig am fis o wyliau yn Japan, a blwyddyn nesaf bwriadant fyned i fwrw tymhor yr hâf yn un o Ynysoedd y Môr Tawelog, gan dreulio y tri diwrnod cyntaf yn New York. Nid felly 'r oedd hi ys llawer dydd, pan yr oedd fy mamgu yn gorfod teithio i Ferthyr i wel'd ei phriod, gan gerdded yr holl ffordd, a fy mam ar ei chefn. Nis gwn pa daith a gymer fy ngorwyrion pan ddêl amser eu gwyliau hwy. Ai tybed y sefydlir *holiday resort* yn rhywle yn nghanol

y nwyfre îâs, ddilychwin, lle y gellir anadlu awyr bur, yn mhell o "Sŵn y boen sy' yn y byd"?

Yn sydyn clywaf sŵn cnocio uchel; syrth rhywbeth o'm llaw; dihunaf yn wyllt, a'r gadair gyferbyn a mi yn wâg. Rhwbiaf fy llygaid, edrychaf oddiamgylch yn bryderus; y mae'r melusder dieithr yn araf godi oddiar fy yspryd, a rhyw hiraeth pêr, hanerpoenus yn cymeryd ei le. Y mae'r cnocio 'n parhau, ac y mae llais i'w glywed wrth y drws; gwelaf Tennyson ar y llawr fel gwylan wedi ei saethu, a'i ddail ar led. Y mae'r gadair yn wâg. "Gwen, pa le yr ydych?" yw'm gofyniad pryderus. Enid, Geraint, Olwen, ac Arthur, pa le maent? Lleinw fy llygaid o ddagrau; trymhânt gan hiraeth anesgrifiadwy. Gwaeddaf eto, "Gwen, pa le 'r ydych, gariad?" Ond nid oes yr un ateb, ond y gnoc wrth y drws a llais uchel gwraig y llety yn gwaeddi, "May I come in to lay the supper for you? you seem to have been asleep for a long time."

Ie, breuddwyd oedd. Ciliodd yr hiraeth yn raddol, ond nid yn llwyr; daeth llawer deigryn i fy llygad i edrych am yr hyn a welsai. Erys llen nifwl Hydref ar fryniau Mynwy, ac uwchben y mae haner lloer alarus yn hwylio, fel corwgl arian heb neb o'i fewn, drwy weilgi ddiderfyn y ffurlafen.

S.

DOETHINEB YR HEN FEIRDD.

Yn myd y tlws a'r tyner y mae y bardd yn byw. Gwaeledd amgylchiadau bydol yr hen feirdd Cymreig yn unig berai iddynt wenieitho i'w noddwyr,

> "A chanu twyll o chwant aur,"

Ac weithiau,

> "I roi achau rhy wychion
> A mawl i Siac mal i Siôn."

Mae y wisg dlos yn yr hon y dilladent eu syniadau ar fywyd, yn gwneyd y fath argraff ar y meddwl fel ag i beri i'w haddysg i lynu yn y cof. Mae y diweddaraf o'r beirdd a ddyfynaf wedi marw er's dros ddau can mlynedd, ond teilwng yw eu drychfeddyliau o'u hadgoffa, a'u cynghorion o'u dilyn heddyw. Yn wir, mae rhai o'u llinellau yn swnio mor *up-to-date* nes peri i'r darllenydd amheu eu henaint. Gellid meddwl mai rhyw fardd Sosialaidd diweddar, ac nid Iorwerth Fynglwyd (1470), feiddiai ddweyd,—

> "Bonedd heddyw ni wedda,
> Bawaidd yw dyn ni bydd da."

Ac wrth ddarllen y cwpled,—

> "Nid aeth llywodraeth lladron
> Yn drais hir hyd yr oes hon,"

gellid meddwl mai un o dduciaid Prydain Fawr yn yr Hydref presenol sydd yn siarad, ac nid Hywel Ddafydd er ys dros 400 mlynedd yn ol.

Amlygir yn ddigon eglur yn nghywyddau y Saint mor ofergoelus oedd yr hen feirdd, ond eto y mae yn rhyfedd meddwl mor unfrydol ydynt yn eu tystiolaeth mai mewn uniondeb buchedd y gorphwys mawredd ac iachawdwriaeth dyn. Medd Sion Cent,—

"A fyno nef i'w enaid,
O'i feiau byth ef a baid ;"

A Hugh Arwystl,—

"Duw a ry gwymp i'r drwg wr,
Duw a gyfyd ei gofiwr ;"

A Gruffydd ap Ieuan,—

"Dim nid oes o'r byd yma
Eithr y dyn i wneuthur da ;"

A Gwilym Llŷn,—

"Beth a wna'n deg yr egin?
Bod y gwraidd heb edeu grin.
Beth oreu oll byth ar wr?
Byw'n union na bo'n annwr.
Camau a beiau lle bôn
A yrr ddinystr ar ddynion ;
Byw'n gymhwys heb hen gamau
A bair i hil gwr barhau."

"Os wyf fychan," meddai Sion Phylip, pan edliwiai cyd-fardd iddo mai rhyw Zaccheus mewn corffolaeth ydoedd,—

"Nid fy maint ydyw fy mudd ;
Ond y sydd dda, barna byd,
Fe'i rhifir yn fawr hefyd."

Cyfled â bywyd yn ei holl agweddau yw ei sylwadaeth. Am berthynas dyn a chymdeithas, meddai Dafydd Namor,—

"Gŵr a wella gwŷr well-well,
A'r gwŷr a wna'r gŵr yn well ;"

A Maredydd ap Rhys,—

"Yn ol anwiredd y naill
Anwiredd a wna eraill."

Fflangellai yr hen feirdd bechodau eu hoes gyda llymder, megis lle dywed un o honynt wrth y cybydd,—

"Iawnach i gybydd enwir
Garu Duw nag erw o dir."

Am feddwdod, meddai Edward Morris, yr hwn oedd borthmon o'r Gogledd, a'r hwn a fu farw yn Essex yn 1689,—

"Pwy a ddengys a'i fys fai
Mwy na gwendid mewn gwindai?"

Wrth ddilyn ei alwedigaeth dysgodd,—

"O bob ymryson y bydd
Terfyn iawn trwy fyw'n llonydd."

Mor llawn a chryno y darnodir Cynnen gan Ddeio ab Ieuan Du, lle y dywed mai—

"Anodd fydd ei diffoddi,
Ac un dyn a'i hennyn hi ;"

ac mor ddoeth ydyw cynghor Tudur Aled er ei hosgoi,—

"Goreu yw dàl y gair du
A niweidiol na'i wadu ;"

ond gwell eto ydyw anogaeth Owain Gwynedd,—

"Gair cynnes, goreu canwyll
I gadw pawb i gyd yw pwyll ;"

canys, meddai,—

"Gwrid ar wyneb gwr dranoeth
A wna rhoi barn yn rhy boeth,"

a dywed yr un awenydd mai,—

"Dyn ni wna daioni i neb
Ydyw un a dau wyneb."

Pa ddarlun tlysach o gyfeillgarwch ellid ddymuno nag eiddo Hywel Swrdwal, lle dywed am gâr ymadawedig,—

"Ni cheisiwn nef na'i threfi,
Pe gwypwn nas cai hwn hi?"

ac mor gysurlawn i'r neb a oddiweddir gan drallod ydyw geiriau bardd arall,—

"Ceir haul ar ol gwlaw creulon,
Cei di haul—cawod o hon.

CLEDLYN.

MEWN CAPEL UNDODAIDD.

Anfynych y byddaf yn cael y cyfleusdra i wrandaw pregethwr Undodaidd, er cymaint y caraf wneuthur hyny—ar y slei. Bu imi'r fraint hyny yn ddiweddar, fodd bynag, ac er nad oes genyf gof da, ac nad wyf yn feddianol ar bin yr ysgrifenydd buan, yr wyf am wneud cais. er mwyn tipyn o bractis, i osod gerbron darllenwyr YR YMOFYNYDD—yr hwn, *by the way*, yr wyf yn ei ddarllen gyda phleser a budd bob mis,—gan gredu y gall fod o ddyddordeb iddynt. Y mae genyf amryw resymau—gadawaf i'r darllenydd eu dyfalu—dros beidio lleoli.

Deallaf mai nid gweinidog y lle oedd yn gwasanaethu ar y pryd, ond gweinidog cymydogaethol. Ni ofynais ei enw, a phe buaswn wedi gwneud ni fuaswn yn ei wneuthur yn gyhoeddus dan yr amgylchiadau. Nid oedd yn ieuanc, ac nid oedd yn hen chwaith. Nid oedd yn dew, ond yn hytrach i'r gwrthwyneb. Oddiwrth ei bryd a'i wedd yr oedd yn yn hawdd casglu ei fod yn fyfyriwr, a'i fod yn traethu ei feddwl ei hunan, ac nid rhyw adsain o feddwl rhywun arall. Yr wyf yn caru tipyn o wreiddioldeb—gwreiddioldeb mewn dull, mewn ymadroddi, ac mewn syniadaeth, a chefais hyny yn y gwasanaeth hwn. Darllenai yn bwyllog ac yn hamddenol, fel y dylai pob un ddarllen; ac nid ar ruthr fel pe byddai wedi codi ysgyfyrnog. Fe gar pob un ddarllen da, mewn llais peraidd a chlywadwy. Teimlwn fod yna ryw grip yn ei weddi oedd yn felus odiaeth. Nid oedd mewn dim yn debyg i neb arall a glywais erioed; a daru i mi ei fwynhau yn fawr.

Cododd ei destyn yn Deuteronomium 33 : 27 :—"Dy noddfa yw Duw tragwyddol; ac oddi tanodd y mae y breichiau tragwyddol." Testun ardderchog, meddwn i wrthyf fy hunan, ac yn cynwys elfenau pellgyrhaeddol. Dyma destyn i roddi boddlonrwydd i'r meddwl, a chysur a heddwch i'r galon.

"Dy noddfa yw Duw."—Nid pob un sydd yn ddigon gofalus pan yn ceisio sail i osod ei dŷ arno. Dylid yn gyntaf peth edrych fod y sail yn ddiogel. Canlyniad anocheladwy gosod y tŷ ar sail o dywod fydd siomedigaeth; oblegid pan ddaw'r gwlaw a'r llifddyfroedd, &c., i ymosod arno, ni fydd fawr gobaith iddo sefyll. Cymerwn enghraifft megys wrth basio. Fel y gwyddoch, gesyd yr eglwysi uniongred holl adeiladwaith eu duwinyddiaeth ar y Groes. Yn awr, gyda phob dyledus barch i'r ymadrodd am Grist a'i groes, dymunwn awgrymu nad yw'r syniad poblogaidd am y Groes fel sylfaen ddim yn ddiogel. Rhaid yw cloddio yn ddyfnach cyn cael y graig. Yr unig sylfaen ddiogel yw Duw. "Dy noddfa yw Duw."

Drachefn, nid wyf yn meddwl fod yr Undodwr bob amser a'i lygad ar y sylfaen sy gadarn a diogel. Maddeuwch imi am ddweyd hyny, er i chwi anghytuno. Fe ddichon fod yr Undodwr yn iawn pan ddywed nad opiniwn, nad syniad, nad credo yw sylfaen iachawdwriaeth; ond a yw yn iawn pan yn gosod ei feddwl allan ar y wedd gadarnhaol—iachawdwriaeth trwy gymeriad,—*salvation is not by creed but by character*, meddai,—iachawdwriaeth nid trwy gredu'r peth hyn neu'r peth arall, ond trwy gymeriad, trwy fuchedd loyw, trwy fywyd diargyhoedd. Mae hynyna yn swnio'n dda, ond a ydyw yn iawn? A ydyw'r sylfaen yna? Ni choeliaf ei fod. Ni ddaw iachawdwriaeth trwy gredu, ni ddaw trwy gymeriad chwaith. Yn awr peidiwch fy nghamddeall. Ni ddaw iachawdwriaeth drwy gymeriad. Ni ddaw *heb* gymeriad, wrth gwrs; ond nid cymeriad yw sylfaen iachawdwriaeth, eithr i'r gwrthwyneb, iachawdwriaeth yw sylfaen cymeriad. Nid wyf am

foment yn amheu gwerth cymeriad da. Y mae cymeriad da yn arddechog—yn gyfoeth gwerthfawr i bob dyn i'w feddianu; ond er meddianu y cyfoeth gwerthfawr hwn, sef cymeriad da, fe all fod yna ddiffyg wedi'r cwbl.

Gall fod gwahanol achosion a gwahanol gymhellion y tu cefn i'r cymeriad da; ac er ini addef gwerth cymeriad da o ba ffynonell bynag y byddo'n tarddu, a gwasgu ar bob dyn y ddyledswydd o'i geisio iddo ei hun, na pa un a fydd yn deall athroniaeth ei darddiad neu ni fydd; eto, mae'n amlwg, os yw'r dyn yn troedio llwybr uniondeb oddiar gymhellion gwael a hunangar, er mwyn elw yn unig, neu ganmoliaeth, neu barch ei gymydogion, nid yw yn hollol y peth y dylai fod—yn y gwraidd. Mae'r cymhelliad yn afiach, yr amcan yn wael. Nac anghofier mai'r amcan sydd i goroni'r weithred. Ni phrawf ei gymeriad da i'r cyfryw un yn graig ddiogel i sefyll arni yn nydd ei gyfyngder. Dyma ddywed yr hen lyfr: Diwedd y gorchymyn yw cariad o galon bur, a chydwybod dda, a ffydd ddiragrith. * * * Y dyn da o drysor da y galon a ddwg allan bethau da. Yr ydys yma bron a chwrdd a'r gwaelod.

Soniwyd am Ddyledswydd. Fe wasga Dyledswydd arnom o bob cyfeiriad. Ni ddylid anwybyddu llais dyledswydd. Ac eto nid yw llais dyledswydd y llais mwyaf cysegredig. Rhaid cloddio'n ddyfnach eto. Y rhaid goreu yw gweithredu o galon ac o gariad.

Nid pell o le yw geiriau y Psalmydd (46 : 1):—Duw sydd noddfa a nerth i mi, cymorth hawdd ei gael mewn cyfyngder. Pan fyddo dyn ar y llawr yn deg, ac megys yn amddifad o bob peth, dyna'r pryd y caiff weled bendithion Duw yn dylifo'n ffrydiau cyfoethog i gyflenwi ei holl angenion. Yn ei ing a'i gyfyngder pan fydd yn teimlo'r angen, fe sylweddola fod ganddo wir noddfa a nerth yn Nuw. Duw yw'r sylfaen ddisigl, y graig gadarn. Ie, gras Duw, ffafr Duw, rhodd Duw yw'r cyfan.

Y baban bach, aelod egwanaf y teulu, mae'r help yn agosach ato nag at neb, ac fe ddaw o bob cyfeiriad. Mae ei angen yn fawr, a'r angylion sy'n barod i weini arno maent yn lluosog mewn cyfartaledd.

Pan fyddo dyn uwchben ei ddigon, yn gyflawn megys ynddo ei hunan, heb yr un teimlad o angen neu eisieu arno, mae'n debyg i long ar y cefnfor, wedi ei goddiweddyd gan dawelwch mawr—y gwyntoedd wedi gostegu a'r tonau wedi distewi—nid oes yna ddim myned yn y blaen yn bod. Y mae yna fwy o obaith am long mewn ystorm i gyrhaedd y porthladd na'r llong sydd wedi ei goddiweddyd gan y tawelwch mawr. Pan fydd yr angen fwyaf y bydd Duw agosaf. Duw sydd noddfa a nerth i mi, cymhorth hawdd ei gael mewn cyfyngder.

Ymddiheurad: Yr wyf yn ofni fy mod ragor nag unwaith wedi colli golwg ar lwybr y pregethwr a myned i'r niwl.

B.C.D.

PREN AFRADLONDEB.—Y pechod o feddwdod a ymlid reswm, a fodda'r côf, glafycha'r corph, anffurfia brydferthwch, leiha nerth, lygra'r gwaed, enyna'r ysgyfaint, wanycha yr ymenydd, a dry ddynion yn ysbytai symudol ac a achosa glwyfau tufewnol, allanol ac anfeddyginiaethol. Mae yn ddewin i'r synwyrau, yn gythraul i'r enaid, yn leidr i'r logell, yn gydymaith cardotyn, yn wae gwraig a thristwch plant. Pâr i ddyn fyned yn fwystfil a hunanleiddiad; ŷf iechyd da ereill ac ysbeilia y dyn ei hun o'i wir eiddo. Gwreiddyn pob drwg yw meddw-dod.—*Mr. Jones, Veterinary Surgeon, Graigwen, Pontypridd.*

AT EIN EGLWYSI.

Oddiar y dydd y cefais y pleser o wrando ar Mr. J. R. Thomas, Pontsian, yn traddodi ei anerchiad ar "Ein Eglwysi" yn y Cyfarfodydd Blynyddol yn Capelybryn, Cwrtnewydd, yr haf diweddaf, mae chwant wedi bod arnaf droion i ysgrifenu ychydig i'r YMOFYNYDD o dan y penawd uchod. Yr oedd anerchiad Mr. Thomas yn ardderchog, a hyny am ei fod yn ymarferol; ei nerth ydoedd ei fod yn son am welliantau ag y gall ein holl gynulleidfaoedd a'n Hysgolion Sul eu dwyn i weithrediad, os dewisant hyny.

Heb os nac onibae dylasem edrych ar hanes a gorphenol yr achos Undodaidd yn Nghymru fel pethau cysegredig a sanctaidd. Nid mewn gardd yn nghanol blodau gwynion a theg y tyfodd Undodiaeth Cymru. Nid un o blant yr haf a hawddfyd ydyw wedi ei fagu yn ngwenau haul ac ar ddanteithion melus. Nid ar ffordd lyfn ac esmwyth y mae wedi cerdded. Na, un o blant y gauaf ydyw; un a ymladdodd ei hunan i fodolaeth ac a ymladdodd i gadw ei bodolaeth; un a welodd galedi ac a ddyoddefodd erledigaethau blin pan y ceisiodd ddysgu'r ffordd i gerdded. Byddai'n werth i ni edrych yn ol weithiau: efallai y byddai hyny'n help i ni wneud gwell defnydd o'n breintiau a'n cyfleusderau. Byddai'n werth i ni weithiau i alw i gof hanes rhai o hen gewri'r ffydd, yn weinidogion a gwŷr lleyg; efallai y byddai meddwl am y caledi welsant hwy, yr ymosodiadau yr aethant trwyddynt, y gwroldeb a'r ffyddlondeb ddangoswyd ganddynt, yn ysprydiaeth newydd i ni i geisio dal yr hyn sydd genym yn fwy tŷn ac i geisio, yn eu hyspryd hwy, ychwanegu at yr etifeddiaeth.

I mi, nodwedd amlycaf Undodiaid y dyddiau gynt oedd ffyddlondeb. Y gair amlycaf a'r gair anwylaf yn llyfr profiad ein heglwysi yw ffyddlondeb; a pha beth bynag arall ellir ddweyd am y tadau, ac am y mamau hefyd, gellir dweyd—"Buoch ffyddlon." Nid yw yr eglwys Undodaidd wedi bod yn amddifad o dalentau. Mae hanes D. Davis, Castellhywel; John James, Gellionen; Gwilym Marles, Thomas Thomas, William James, ac amryw eraill ellid enwi, yn dweyd fod ein gorphenol yn gyfoethog o dalent a doniau. Wnaeth neb fwy, yn ol eu cyfleusderau — efallai y dylaswn ddweyd, yn ol eu anghyfleusderau—i sefydlu ysgolion a lledaenu addysg yn y Dywysogaeth na'r hen weinidogion Undodaidd. Ond nid am eu talentau yn gymaint a hyny y diolchwn, ond am eu ffyddlondeb — am yr elfen hono barodd iddynt roi eu talentau i wasanaethu a bendithio eu hoes a llawer oes i ddod. 'Doedd dim ofn gwaith arnynt. Rhwng cadw ysgol bump diwrnod o'r wythnos, ac ysgrifenu a chyfansoddi, a cherdded pellderoedd ar y Sul i bregethu, rhaid eu bod yn weithwyr caled, a rhaid eu bod wedi ymroddi i waith gyda mawr sêl a brwdfrydedd.

Nid wyf fardd, neu buaswn er's llawer dydd wedi gorchymyn i'r awen ganu cân i'r tadau: fy hiraeth penaf fyddai ceisio canu cân goffadwriaethol deilwng o'u llafur a'u ffoddlondeb hwy. Diolch am Gwilym Marles i ganu—

"Gwelwn ôl yr hen ffyddloniaid
Ar hyd llwybrau diriaid iawn,"

a diolch am "Nantgau" i wneud yr olion yn amlwg a'r ffyddloniaid yn anwyl yn ein golwg. 'Does dim eisiau i ni gywilyddio wrth feddwl am y tadau a'r mamau; na fydded i ni daflu cywilydd ar eu gwaith a'u coffadwriaeth hwy trwy ddifaterwch ac oerfelgarwch. Maent hwy wedi myn'd—mae eu brwydrau drosodd yr etifeddiaeth wedi ei henill a'i throsglwyddo i ni. A gawn ni ei

chadw? A gawn ni ei chyfoethogi?

Mae hanes y gorphenol yn dweyd, "Byddwch ffyddlon"; mae cyfleusderau y presenol yn dweyd, "Byddwch ffyddlon." Cred llawer na fu yna erioed well cyfle i Undodiaid i wneud gwaith nag heddyw, a chofier fod cyfle newydd o hyd yn golygu cyfrifoldeb newydd. Daethom o'r Aipht — o dŷ y caethiwed; na ddychwelwn yno; na ddeisyfwn fel yr Israeliaid chwaith am feddau yn yr anialwch. Awn rhagom yn wrol a ffyddiog; mae gwledydd addewidion Duw yn gorwedd yn y dyfodol.

Mae llu o elfenau yn myn'd i wneud i fynu yr eglwys Undodaidd, megys pob eglwys arall. Yma ceir gweinidogion, diaconiaid, swyddogion, aelodau, rhieni, plant, pobl ieuainc. Rhaid wrth gwrdd chwarter a misolyn, emyn a phregeth, pwyllgor a chasgliad; a charwn, os bydd y golygwyr mor garedig a chaniatau hyny, ddweyd ychydig wrth, ac am bob un o'r dosparthiadau a'r pethau hyn. Nid dweyd er canmawl neu chwilio beiau, ond dweyd yn y gobaith y bydd i'r hyn a ddywedir fod o ryw wasanaeth. Efallai y bydd gystal i mi ddechreu gyda'r gweinidogion, er y teimlaf fod y maes hwn fel rhyw fath o "*preserved ground*" ag sydd yn gofyn am gerddediad ysgafn. Wn i yn y byd sut rai yw pregethwyr i wrando a chymeryd pregeth. Cânt hwy gyfle un diwrnod o bob saith i bregethu i'w cynulleidfaoedd, i son am eu diffygion a'u gwendidau, i ymosod ar eu harferion a'u pechodau, a'u hanog i ymestyn at y nôd am gamp uchel; a pha mor drwm bynag y bydd yr ergydion, cha'r gynulleidfa ddim cyfle, yn y cwrdd beth bynag, i daro 'n ol. Mae cynulleidfaoedd, fel rheol, pa un a fyddant foddlawn i hyny ai peidio, yn gorfod byw y gorchymyn hwnw, "Ac i'r hwn a'th darawo ar y naill gern, cynyg y llall hefyd." Yn wir, galwedigaeth òd, mewn llawer ystyr, yw eiddo gweinidog. Ystyr y gair gweinidog, mae'n debyg, yw "gwas," ac, yn wir, mae syniad uchaf ambell i gynulleidfa am ei gweinidog yn gynwysedig yn y gair bach yna—"gwas." Meddai aelodau ambell i gynulleidfa: "Onid ein gwas ni yw 'e?" Ie, fel mae gwaetha'r modd, a "gwas bach" hefyd—rhyw was twt, gwas i wneud yr "*odds and ends*" yn lle cynulleidfa, gwas i wneud a pheidio gwneud yn ol ewyllys y diaconiaid. Wrth "was" golyga ambell i ddyn un i weithio yn ei le. Rhodda ambell i ddyn gyflog i was am weithio fel y gall ef ei hun ddod i ben heb wneud dim. Pa sawl eglwys yn Nghymru grefyddol, ys dywedir, sy'n cyflogi gweinidogion yn yr yspryd yna? yn talu cyflog—ac wrth y gyflog weithiau gallesid meddwl mai "gwas twt" yw 'e—i un am weithio yn ei lle? Gwn am rai a bechant gael gan y gwas i wneud pobpeth—hyd yn oed i fyn'd a hysbysleni cyngherddau i'w gosod i fynu mewn manau amlwg, ac wedy'n disgwylir arno i ddweyd, "Yn wir, gwas anfuddiol ydwyf." Galwedigaeth òd yw eiddo'r gweinidog. Tra mae ambell i weinidog yn was, yn *slave*, mae'r llall yn feistr, yn ormeswr. Gwn am weinidogion yn ofni eu cynulleidfaoedd, a gwn am gynulleidfaoedd yn ofni eu gweinidogion. Oes, mae yna lawer o weinidogion ag ydynt yn ormeswyr; gwnant eu hunain yn babyddion ac offeiriaid, a mynant ffordd eu hunain yn mhob dim. Pa un o'r ddau yw hi i fod, meddech? Atebaf—dim un o'r ddau.

Ga i ddweyd eto mai galwedigaeth òd yw eiddo y gweinidog. Mae'n bosibl rhoi rhy fach o ryddid i ambell weinidog; mae'n bosibl rhoi gormod i un arall, hyny yw, rhoi mwy nag y gall ei iawn ddefnyddio. Os ca ambell i weinidog rhy fach o ryddid, bydd i'w allu a'i ddoniau, a'i awydd i wneud daioni, gael eu parlysu; os ca ormod, bydd i ddoniau a thueddiadau goreu ei gynulleidfa fyn'd yn ddiffrwyth. "Beth wnawn ni," medd ambell i gynulleidfa, "os rhown berffaith ryddid i'r gweinidog sydd gyda ni; os ca ddweyd a gwneud a byw fel mae e'n dewis, fe ä yr achos

i lawr ar ein gwaethaf?" Gosodiad truenus; ond fel mae gwaetha'r modd, gosodiad ag sydd yn wirionedd am lawer o gynulleidfaoedd. Mae calon llawer i gynulleidfa wedi ei dryllio, ei theimladau wedi eu clwyfo yn herwydd anoethineb ac ymddygiad a buchedd eu gweinidogion, yr hyn sy'n codi'n aml iawn o'r rhyddid a ganiateir mor gyffredinol i weinidogion. "Beth wnaf," medd ambell i weinidog, "ni chaf awgrymu syniad newydd, ni chaf ddweyd fy meddwl a'm barn fy hun—dim ond dweyd yr un hen stori o hyd; ni chaf son am bechodau'r oes a'r gymydogaeth—dim ond difrïo 'r Iddewon o hyd am eu pechodau hwy?" Gwirionedd truenus eto. Mae llawer i weinidog wedi tori ei galon yn ymyl y ffordd wrth weled y meusydd mor eang—wrth glywed y llais yn galw mor daer am weithwyr, tra ei draed ef wedi eu llyffetheirio a'i ddwylaw yn dyn mewn cadwynau.

Beth sydd i'w wneud, ynte? Wel, dyma fy nghynghor i i'r cynulleidfaoedd: Rhowch berffaith ryddid i'ch gweinidogion: fedrant hwy ddim gweithio heb hyny—rhyddid i feddwl a thraethu barn; rhyddid i drefnu eu hamser; gosodwch hwynt ar eu hanrhydedd, ac yna, os bydd y gweinidogion—gofaler fod y disgwyliad yn gyffredin o resymol—yn camddefnyddio y rhyddid yna, yn dibrisio yr anrhydedd osodir arnynt, wel, ceisier cael gwared arnynt. Os na fydd yna ymgais i roi y goreu, y myfyrdod goreu, yr amser goreu, y pregethau goreu, yr esiampl oreu at wasanaeth y gynulleidfa, mae'r gweinidog yn syrthio'n fyr o gyflawni ei ddyledswyddau, o anrhydeddu ymddiriedaeth y gynulleidfa; a phan mae hynyna yn digwydd, gwell gen i wel'd cynulleidfa yn chwilio am weinidog mwy ffyddlon na'i gwel'd yn gwrthod rhyddid. A dyma fy nghynghor i'r gweinidogion: Anrhydeddwch y rhyddid a'r ymddiriedaeth yna. Pan mae rhyddid yn cael ei roi, pan mae ymddiriedaeth yn cael ei osod, parcher ac anrhydedder hwynt.

A.B.

(Pw barhau).

LLITH J.J.T.

MRI. GOL.—Yr wyf yn Aberayron, ac y mae yspryd ysgrifenu wedi fy meddianu. Wrth edrych ar y môr a'i ddefnyddioldeb yr wyf yn gweled anfeidrol ddoethineb. Yr wyf yn dywedyd fel dywedodd Kepler, "O God! I think your thought after Thee." Wrth eistedd yma ar lan y môr, yr wyf yn teimlo fy mod yn dàl cymdeithas a'r Anfeidrol Mawr ei hun wrth edrych ar y doethineb mawr sydd o fy mlaen; ac hefyd, mae doethineb mawr gan ddyn.

Wrth edrych ar ein llongau mawrion, a llawer o'r rhai hyn wedi cael eu hadeiladu o haiarn, ac yn cario miloedd o dunelli dros y cefnfor mawr, ac wrth gofio mai o'r gareg fwynen y maent oll wedi dod, onid oes yma ddoethineb mawr i'w weled yn y dyn? Yn awr faint yw y gwahaniaeth sydd rhwng y doethineb a roddodd y gareg fwynen yn y ddaear â'r un a'i defnyddiodd hi i adeiladu y llongau mawrion hyn—y rhai hyn sydd yn myned i America mewn pedwar diwrnod. Fe garwn i gael gwybod beth yw y gwahaniaeth sydd rhwng doethineb y dyn a doethineb yr hwn a'i creodd ef. Mae

Sir Oliver Lodge yn credu mai yr un ydynt. A ydyw hyny yn iawn? Ond y mae y Proffeswr Haeckel yn dywedyd mai mater yw y cwbl ac nad oes dim yn uwch na doethineb dyn, a mater yw hwnw, ac fod pob peth i ddarfod yma. Gwelwn fod yma ddau allu mawr yn croesi eu gilydd, sef y ddau wr mawr a galluog hyn. Pe buaswn yn siarad a'r Parch. Rees Jones, Llanbedr a'r Parch. R. J. Jones, Aberdar, fe ddywedent hwy eu bod yn cael cenadwri o'r byd tu draw i'r bedd. Y mae y cadarnhaol a'r nacaol yn gryf iawn rhaid cyfaddef. Yr wyf yn morio ar Atlantic fawr bywyd, a theimlaf fy mod fel llong ar y cefnfor wedi colli ei llyw, wrth ddarllen gweithiau y dynion mawr talentog hyn. Pan mae y llong ar ganol yr Atlantic nis gall fwrw allan ei hangor—mae y môr yn rhy ddwfn, felly yr wyf finau, mae meddyliau mawr y dynion yma yn rhy ddwfn i fi i daflu fy angor fach i lawr; ond yr wyf yn troi at yr Iesu i gael gweled beth sydd gydag ef i ddywedyd wrthyf:—"Gwyn eu byd y rhai addfwyn. Gwyn eu byd y rhai sydd arnynt newyn a syched am gyfiawnder. Gwyn eu byd y pur o galon. Gwyn eu byd y tangnefeddwyr."

Dyma le addas i finau i daflu fy angor i lawr, ond y mae gwyddonwyr mwyaf y byd yn gwrthod yr ymadroddion uchod, ac yn dywedyd fod pob peth yn darfod yma—nad oes dim yn mhellach na'r fodolaeth hon. Wel, pa beth a wnawn ni i'r ysprydegwyr? Maent hwythau yn ddynion call a dysgedig, ac yn feddianol ar feddyliau ardderchog. Maent hwythau yn ymddiddan a'u cyfeillion anwyl o'r byd ysprydol. Onid yw hi yn dywyll iawn i fi a'm cyffelyb? Yr wyf yn benderfynol o lynu wrth yr Iesu. Yr oedd ef yn uwch na gwyddonwyr yr oes bresenol. Yr oedd ef yn wyddonwr ysprydol ac nid materol. Gydag ef y mae geiriau y bywyd tragwyddol.

J.J.T.

EMYNAU DR. WATTS.

Am oesoedd lawer bu rhai o'r eglwysi Seisnig yn canu Psalmau Dafydd fel y maent wedi eu mydryddu gan Sternhold a Hopkins. Y mae y rhai hyny yn dilyn y Psalmau yn bur agos; ac fel hwythau fe'u hystyrid yn ysprydoledig. Bu rhagfarn dwfn yn Scotland am hir amser yn erbyn pob math o emyn am nad oeddynt yn eu tyb hwy yn ysprydoledig, a gwrthodent felly eu dwyn i fewn at wasanaeth yr eglwys. Y mae gwahaniaeth dirfawr rhwng ansawdd meddyliol yr hen a'r newydd. Erbyn heddyw y mae newydd y pryd hwnw wedi myned yn hen—yn bobl-ogaidd ac wrth gwrs yn ysprydoledig.

Gwnaeth Dr. Watts (1674—1748) fwy na neb arall i beri i Dafydd i ganu yn ol gofyn y credoau a llefaru fel dysgybl Calfin. Er y dywedir fod Matthew Henry (1662—1714) yn dipyn bach o Galfin, ni fynai fod ond Psalmau Dafydd yn cael eu canu gan y gynulleidfa. O ddechreu hyd ddiwedd y flwyddyn dechreuai wasanaeth y bore gyda Psalm 100—yn Saesneg:—"Sing to the Lord with cheerful voice." I'r gwahoddiad hwn gallai pawb ufuddhau, pa un a fyddent yn credu yn y Duw Tri-yn-un, neu ynte yn Nuw a Thad ein

Harglwydd Iesu Grist yn unig. Yn y Gymraeg fe'i darllenwn fel hyn,—

I'r Arglwydd cenwch, hyfryd gân,
Pob gwlad rhowch fawl i'w enw glân ;
Frytaniaid, a'ch calonau, a'ch llef,
Dadseiniwch chwithau'i foliant Ef.

Yn gyffelyb gall pob un ganu Psalm 23, gan osod ei esboniad ei hunan ar yr Arglwydd sydd yn fugail. Gweler y Llyfr Emynau,—

"Yr Arglwydd yw fy Mugail mad,&c,

Rhoddodd Dr. Watts lawer o help i wneuthur yr emyn yn boblogaidd ; ond nid oedd ef ei hunan yn cymeradwyo'r emynau athrawiaethol yn niwedd ei oes wedi iddo droi yn Undodwr. Yr ydym yn caru symlrwydd Psalm 24 : 4,—"Y glân ei ddwylaw a'r pur ei galon, yr hwn ni ddyrchafodd ei feddwl at wagedd, ac ni thyngodd i dwyllo. Efe a dderbyn fendith gan yr Arglwydd, a chyfiawnder gan Dduw ei iachawdwriaeth ;" ond beth am Dr. Watts?—

Un a llaw lân, a meddwl da,
Casâu ac ofni pechu wna,
Hwn a fendithia Crist ein Duw,
A gwisg ef a'i gyfiawnder gwiw.

Fe welir mwy o John Calfin nag o'r Psalmydd yna ; ac nid llawer gwell yr ymddengys yn ei wedd Arminaidd—y ddwy linell olaf :

Dwyn allan wna trwy fendith Duw
Holl ffrwythau hardd cyfiawnder gwiw.

Fel hyn y dodir Dafydd i ganu Psalm 72 :

Teyrnasa'r Iesu trwy'r byd maith,
Lle rhed yr haul mewn cylchol daith ;
O'r deheu pell i'r gogledd oer,
Tan ei frenhiniaeth tra fo lloer.

PYRRHO.

PRIODASAU.

HYDREF 17, yn Gellionen, boreu Sul, o flaen y cofrestrydd a'r Parch. — Oldfield Davies, unwyd mewn hardd briodas Mr. Hopkin Morris, Vardre, Clydach-ar-Dawe, a Miss Bessie Saunders, Trebanos. Dymunir iddynt bob llwyddiant yn eu byd newydd.

HYDREF 25, yn Pantdefaid, gan y gweinidog, Mr. John Williams Griffiths, *Clerk*, G.W.R. Station, Llandyssul, mab Mr. David Griffiths, Gorsaf Feistr Glanrhyd, â Miss Gwladys Mary Davies, merch ieuengaf Mr. a Mrs. Davies, Cilgwyn Bach, Llandyssul. Y bendithion goreu fyddo yn eiddo'r pâr ieuanc.

MARWOFION.

MEDI 17, yn 48 mlwydd oed, Letitia Lloyd, Fraichesmwyth, Pencarreg. Y Sadwrn blaenorol gadawodd ei chartref am Glafdy Abertawe, i gael myn'd dan weithred lawfeddygol. Dydd Mawrth canlynol daeth trwy y weithred hono yn llwyddianus, ond y trydydd dydd

daeth ymwelydd arall, yr hwn nad oedd yn caniatau iddi ddyfod yn ol i'w chartref ar y ddaear. Daeth y corph i orsaf Llanybyther y dydd Mawrth canlynol, a chladdwyd yn mynwent Aberduar. Yr oedd yn fenyw fwyn a charuaidd, yn fam a phriod hawddgar, a gellir dweyd am dani—"Yr hyn a allodd hon hi a'i gwnaeth." Bydded i nawdd y Tad Nefol fod gyda'r priod a'r ddwy ferch sydd yn eu galar, ar ol un ag oedd mor anwyl ganddynt, ydyw dymuniad llawer heblaw yr ysgrifenydd.

MEDI 28, ar ol cystudd byr, Margaret Evans, gweddw John Evans, crydd, Ffynon-Pistyll, Cefncoed, yn 81 mlwydd oed. Mam yn Israel, a'r rhagoraf o wragedd oedd Mrs. Evans, a hi oedd yr hynaf o aelodau yr Hen Dŷ Cwrdd. Genedigol oedd o Ferthyr, ond yn mhentref Cefncoed y treuliodd y rhan fwyaf o'i hoes, ac yno yr oedd yn wir adnabyddus ac yn hynod barchus. Fel ei phriod ffyddlon o'i blaen, yr oedd yn un o ffyddloniaid yn eglwys yr Hen Dŷ Cwrdd, a rhwng y ddau mae trysor-yddiaeth yr eglwys wedi ei chadw yn ddifwlch am dros haner can'mlynedd. Yn mhob mudiad er lles ei chydbentrefwyr, yn yr eglwys neu tu allan, yr oedd yr ymadawedig bob amser yn flaenaf yn ei sêl a'i gweithgarwch, yn llon, yn serchog, ac yn hynod am ei hateb parod. Gadawodd ar ei hol, mewn tristwch ar ol mam dda, ddwy ferch, i'r rhai yr eiddunwn ddyddanwch y Tad goreu. Claddwyd yr hyn oedd farwol o honi y Gwener canlynol yn mynwent yr Hen Dŷ Cwrdd, a gwasanaethwyd gan y gweinidog, yn cael ei gynorthwyo gan y Parchn. E. Walter Thomas (A.), Tonypandy, gynt o Gefncoed, a J. P. Kane, Dowlais.

HYDREF 7, ar ol cystudd maith, yn 71 oed, Josiah Rees, Tanrhiw, Llanwenog. Claddwyd yn mynwent Capelybryn, a chyflawnwyd y gwasanaeth ar yr achlysur gan y gweinidog i glywedigaeth tyrfa fawr. Gadawodd yr ymadawedig ei briod ffyddlon, tri o blant, amryw ŵyrion, ac un brawd i alaru ar ei ol. "Gwyn eu byd y tangnefeddwyr."

MANION AC HANESION.

Y GRAIG A GELLIONEN. — Da genym eto longyfarch y bachgen ieuanc medrus, Master Isaac E. Hopkin, Trebanos, yn dod allan yn oreu o saith o chwareuwyr ar y berdoneg, yn eisteddfod Sketty, dydd Sadwrn, Medi 18; hefyd cipiodd y brif wobr o saith cystadleuydd, yn eisteddfod y Neuadd Ganol, Abertawy, dydd Sadwrn, Medi 25, am chwareu darn o gerddoriaeth ar yr olwg gyntaf.

CAFWYD tri chwrdd adroddiadol yn y Graig prydnawn a nos Sul, Hydref 10; a nos Sul, Hydef 17, pan y cymerwyd rhan ymarferol gan rai mewn oed, a chan nifer mawr iawn o blant yr eglwys; a gallwn dystio, na chafwyd hyd yma, well cyrddau adrodd yn yr eglwys hon; yr oedd yr adrodd yn hynod lân, a'r canu yr un modd. Arweiniwyd yn llenyddol gan Mri. J. J. Williams a H. H. Morgan yn gerddorol. Cyfeiliwyd gan Mr. J. E. Hopkin, a rhoddodd yntau hefyd ddarn meistrolgar i ni ar y berdoneg. Llywyddwyd y tri chwrdd gan Mri. William Bowen, John Hopkin, a'r Parch. W. Alfa Richards.

EISTEDDFODOL. — Pleser ydyw genym longyfarch y brawd awengar,

Cledlyn, Cwrtnewydd, ar ei waith yn enill y gadair yn eisteddfod Llanddarog. Y testyn oedd "Y Gauaf."

YMDDISWYDDIAD. — Drwg genym ddeall fod y Parch. R. J. Jones, M.A., Aberdar, ar ol 46 o flynyddoedd yn y weinidogaeth, yn bwriadu ymddiswyddo diwedd y flwyddyn. Cydymdeimlir yn fawr a'r brawd ymroddgar a ffyddlon yn ei afiechyd, a'n dymuniad ydyw ar fod iddo hwyrddydd tawel a digwmwl yn cael ei estyn allan fel dydd o haf.

DYCHWELIAD.—Da genym weled y brawd y Parch. J. Tyssul Davies, B.A., wedi dychwelyd o Colombo, Ceylon. Bwriada ymsefydlu yn fuan yn y weinidogaeth Undodaidd.

CAPELYFADFA A LLWYNRHYDOWEN. — Cynhaliwyd cyfarfodydd diolchgarwch am y cynhauaf yma nos Iau a nos Wener, Hydref 21 a 22, pryd y pregethwyd gan y Parchn. E. Ceredig Jones, M.A., ac E. O. Jenkins. Cafwyd cynulliadau da a chyfarfodydd dymunol.

PANTDEFAID A'R GRAIG. — Sul, nos Lun a nos Fawrth, Hydref 17, 18, a 19, cynhaliwyd cyfarfodydd diolchgarwch am y cynhauaf yn y ddwy eglwys uchod. Gwasanaethwyd y Sul gan y Parchn. J. Hathren Davies ac E. O. Jenkins, a Llun a Mawrth gan y blaenaf yn nghyd a'r Parch. W. Alva Richards, Gellionen. Cafwyd cynulliadau lluosog, canu hwylus a phregethau godidog.

CYFARFODYDD DIOLCHGARWCH. —Ar ddyddiau Mawrth, Mercher ac Iau, Hydref 5, 6 a 7 cynhaliwyd cyfarfodydd diolchgarwch am y cynhauaf yn Alltyplaca, Capelybryn a Chapelycwm. Gwasanaethwyd yn bwrpasol iawn yn y tri lle gan y Parch. E. Ceredig Jones. Er gwaethaf yr hin daeth cynulleidfaoedd gweddol yn nghyd, a derbyniwyd cyfraniadau cystal ag arfer at y Gymdeithas yn Llundain.

Y PARCH. JENKIN WILLIAMS.—Y mae'r hen frawd o Banteg wedi bod ar ymweliad a'i hen gyfeillion yn Aberdar a'r Rhondda. Fe ddathlwyd pen ei bedwar ugain mlwydd yn nhy ei nith yn Nhreorci gyda llawer o lawenydd a mwynhad Hydref 13.

ABERDAR.—Cafwyd cwrdd diolch am y cynhauaf yn yr Hen Dŷ Cwrdd, dydd Sul, Hydref 3, Alfa yn gwasanaethu ; ac yn Highland Place, Hydref 10, Ceredig yn gwasanaethu.

GWNAETH Rees Jones (Amnom) ymosodiad nerthol ar weithdai'r tlodion ; a heddyw, ar ol mwy na thriugain mlynedd, y mae pob argoel y diddymir Deddf y Tlodion a'r Gweithdai yn fuan.

PONTYPRIDD.—Cynhaliwyd cyfarfodydd diolchgarwch am y cynhauaf ar y Sul, y 17eg cynfisol. Yn y prydnawn pregethwyd yn Gymraeg gan y gweinidog—y Parch. J. Park Davies, B.A., B.D., i gynulleidfa luosog. Hwn oedd y cyfarfod Cymraeg goreu ydym wedi gael er cychwyniad yr achos yn y lle. Gwasanaethwyd yn yr hwyr gan y Parch. E. Ceredig Jones, M.A. Yr oedd y lle yn orlawn, y capel wedi ei wisgo yn ddestlus a'r pregethwr ar delerau rhagorol a'r gwrandawyr. Dangosodd mewn pregeth dlos a chynwysfawr fel y dylem deimlo yn ddiolchgar i Dduw am ei roddion tymhorol, meddyliol ac ysprydol. Cafwyd amser rhagorol a theimlem bawb o honom mai da oedd i ni fod yn bresenol. Y dydd Llun canlynol cynhaliwyd gwyl dê yn y prydnawn, ac yn ddiweddarach arwerthiad o'r gwahanol nwyddau ddygwyd yno gan foneddigesau caredig y lle er mwyn addurno'r adeilad. Yn yr hwyr cafwyd cwrdd adloniadol pan aeth plant y Band of Hope, o dan arweiniad medrus Alaw Cynon (Mr. Rhys Howells) drwy y cantata a elwir "Birthday Party." Cafwyd yr un dernyn ychydig fisoedd yn ol ac yr oedd yn gymaint o lwyddiant yr amser hwnw fel yr oedd llawer wedi datgan dymuniad ei gael unwaith eto. Teimlwn yn ddiolchgar iawn i'r arweinydd ac hefyd i Mrs. John Lewis am eu ffyddlondeb gyda gwaith y plant.

GLAN RHONDDA. — Cynhaliwyd cyfarfodydd diolchgarwch ar y Sul, 10fed cynfisol. Yn absenoldeb y Parch. D. G. Rees traddodwyd

pregethau grymus gan y gweinidog —y Parch. E. C. Dennis. Daeth nifer luosog yn nghyd dair gwaith a chafwyd cyrddau llwyddianus. Cymerodd yr wyl dê flynyddol le prydnawn y dydd Mawrth canlynol a throdd allan yn llwyddiant rhyfeddol. Bernir fod o gant a haner i ddau cant, yn Undodiaid ac ereill, wedi dyfod at eu gilydd i ymgymeryd o'r gwahanol ddanteithion, a disgwylir fod elw gweddol wedi dyfod i law. Da iawn oedd genym weled yn bresenol y Parch. Jenkin Williams, Panteg. Y mae wedi bod ar ymweliad a Chwm Rhondda lle mae ganddo rai perthynasau a llawer o gyfeillion. Yn ystod ei arosiad yn Nhreorci cefais y pleser o fod yn bresenol gydag amryw ereill un noson yn nhŷ Mrs. Thomas, yn Bute Street, lle yr oedd yn aros, i ddathlu ei bedwar ugeinfed pen blwydd. Gobeithio y caiff nerth ac iechyd eto am flynyddau lawer i wasanaethu'r achos sydd mor anwyl ganddo, ac y daw unwaith yn rhagor heb fod yn faith i Sir Forganwg lle y bydd iddo groesaw gwresog a derbyniad serchus. I ddangos pa mor gryf y pery i fod yn gorfforol, meddyliol ac ysprydol, nid oes eisieu ond crybwyll y ffaith iddo bregethu yn Glanrhondda un Sul ac yn Nghwmbach y Sul arall. Gall ddweyd gyda General Booth ei fod yn dyfod yn ieuengach bob dydd yn lle myned yn henach.

YR UNDODWR A'R GENADAETH. —Mewn rhifyn diweddar o'r *Llais Llafur* (13-6-09) fe ddywed gohebydd lawer iawn am dduwdod Crist, a'r angenrheidrwydd o gred ynddo cyn y bydd awydd i bleidio'r genadaeth i'r paganiaid. Cariad pur at Iesu Grist fel Duw, ac nid fel dyn yn unig, sydd wrth wraidd cenadaethau tramor yr holl fyd. Nid oes digon o gymhelliad, ebe fe, yn nghredo yr Undodwr i'w gynhyrfu i fyned allan i'w chyhoeddi i'r anwariaid; ac y gall y pagan anerch yr Undodwr yn nydd y farn yn y geiriau hyn:— "Bum noeth, ond ni'm dilladasoch, &c." Credwn yr addefa'r Undodwr gyda phob parodrwydd nad yw e' ddim wedi gwneud cymaint ag a garai; ond heb ymffrostio, y mae wedi gwneud peth. Nid yw rhif yr enwad ond bychan, ond cynelir cenadaethau ganddo yn Calcutta, Bombay, Madras, ac ar Fryniau Cassia, &c.; a gwna beth gwaith yn mhlith paganiaid *slums* ein trefydd mawrion. Hefyd, rhydd addysg i frodorion yn ei golegau, i'w cymhwyso at fod yn genhadwyr i'w pobl eu hunain. Yn mherthynas i'r gred yn nuwdod Crist fel symbyliad at y genadaeth, ni ddylid anghofio gwaith mawr y Bwdyddion a'r Mahometaniaid; ac ni ellir dywedyd eu bod hwy yn credu yn nuwdod Crist.

CYFOETHOG A THLAWD.—

Ill fares the land, to hastening ills a prey,
Where wealth accumulates and men decay.

Dywedir fod y cyfoethog yn myned bob blwyddyn yn gyfoethocach a'r tlawd yn dlotach; fod un rhan o dair o boblogaeth ein gwlad ar neu islaw llinell tlodi. Cyfrif rhai fod cyfoeth y dosbarth gweithiol yn aruthrol fawr. Yn y cyfanswm fe edrych felly, ond pan y rhenir ef ceir ef yn fychan iawn. Cyfrifa'r gwahanol Fanciau y swm o 420 o filiynau o bunau fel eiddo iddynt. Y mae'n swm mawr yn wir, ond ceir nad yw wedi ei ranu i'r 32 miliwn o bobl sydd yn berchen arno yn ddim ond £13 i bob un, ac o'r rhai hyn y mae 60 o bob 100 nad oes ond un bunt ar eu cyfer; ac nid yw'r incwm blynyddol hwn wedi cynyddu dim yn ystod y deng mlynedd diweddaf. Talwyd o dreth ar incwm 980 miliwn yn 1907, hyny yw yr oedd incwm blynyddol y miliwn cyfoethogion yn fwy na chymaint arall nag incwm y 32 miliwn eraill gyda'u gilydd. Cyfrifir gwerth cyfalafol ein gwlad yn £15,000,000,000 — pumtheg cant o filoedd o filiynau. Pe tynid allan o'r cyfrf hwn swm y rhai na thalant dreth incwm, bydd ar ol rywbeth tua £13,000 i bob un o'r gweddill. Ceir felly'r cyfoethog yn derbyn mil o weithiau fwy na'r gweithiwr.—P.S.

YR ANFFYDDIWR A'R CWACER.—Yr oedd y ddau un tro yn cyd-deithio ar ben y cerbyd, a dechreuodd yr anffyddiwr wawdio dynion oeddynt yn ffafriol i grefydd. Chwerthinai am ben yr hanes am Dafydd yn bwrw careg i dalcen Goliath. Ni wrthwynebodd neb ef. Yna trodd at y Cwacer a gofynodd a oedd yn credu peth mor afresymol? "O ydwyf, gyfaill," ebe yntau. "Pa fodd y gallai peth felly fod?" "Os oedd talcen y cawr mor feddal a'th dalcen di, yr oedd yn hawdd ddigon." Ar hyny fe ddigiodd yr anffyddiwr yn aruthr, a mynai guro'r Cwacer. Dywedodd y guard na chai wneud dim o'r fath ar y cerbyd. Ond ar ol disgyn ni wnai dim y tro ond ymladd. "Wel," ebe'r Cwacer, "gan nad oes modd dy foddloni heb ymladd, ymladdaf â thi ar un amod." "Beth yw hono?" ebe yntau. "Gadael i mi gael yr ergyd cyntaf." "O cei, a chroesaw," ebe'r anffyddiwr. "O wel," medd y Cwacer, "byddwn felly heb ymladd byth!" Ar hyny, estynodd yr anffyddiwr ei law, a daethant yn gyfeillion ar unwaith. "Ateb arafaidd a ddetry lid, ond gair garw a ddeffry ddigofaint."

RHAGFARN.—Fel hyn mae'r stori adroddodd Dr. Duff y dydd o'r blaen yn nghyfarfod y Progressive League yn Rhydychen. Danfonodd y Dr. gopi o draethawd y Dr. Estlin Carpenter ar Adgenedliad (Regeneration) at amryw gyfeillion uniongred. Gofalodd ddileu pob cyfeiriad at enw'r awdwr. Yr oedd y ganmoliaeth yn uchel iawn,—"Paham na ellid cael y fath addysg werthfawr yn ein pwlpudau ni!" Dwg y stori ar gof i ni un gan John Enoch, Rhandir. Daeth cymydog un tro i ymweled a John Enoch yr hwn oedd yn glaf ar y pryd. Dygwyddai fod yn darllen. "Rhowch glywed be' sy' genych," ebe'r ymwelydd. Darllenwyd—"O'r oedd yn dda! Ewch yn mlaen. Yr oedd yn dda odiaeth. Pwy ydyw'r awdwr?" Enwyd un o weinidogion yr Undodiaid. "O, pam na ddywedsech hyny o'r blaen?" Newidiodd y brawd ei farn ar unwaith. Rhyfedd yw rhagfarn. Nid anhebyg oedd profiad Dr. Savage gyda'i lyfr ar "Christianity, the Science of Manhood." Cafodd yr argraffiad cyntaf ganmoliaeth uchel yn y newyddiaduron uniongred. Yr oedd yr awdwr yn Annibynwr ar y pryd. Cafodd yr argraffiadau diweddarach driniaeth arw gan yr un papyrau—er mai'r un llyfr oedd ac heb newid gair; ond yr oedd Dr. Savage erbyn hyny yn Undodwr proffesedig.

UCHELGAIS SANCTAIDD.

Mae mewn uchelgais allu
I ddringo lle y myn,
Try rwystrau oll yn risiau
Pan ddaw at odreu bryn;
Yn mlaen yr ä yn nerthol,
Y perffaith yw ei nod,
Haws yn ei chwmni ddringo,
"O wele ni yn dod."

Uchelgais lân sy'n deffro
Galluoedd goreu dyn,
Mae grym yn ei dylanwad
A bendith i bob un;
Ymdrechwn oll ei meddu,
Rhydd nerth in' ddringo'r làn—
'Does dim dawela'r enaid
Ond teimlo'r Nef yn rhan.

Cwmfelin Boeth. W.J.

HYNAFIAETHOL. — Treuliodd Mr. J. Griffiths, Ysgol y Parc, ei wyliau haf yn Tenby, a chan ei fod yn meddu llygaid craffus darganfyddodd yn y gymydogaeth gylchoedd hynafiaethol hynod iawn, nad yw llyfrau hanes hyd yma yn rhoi un copinod am danynt. Y cwbl sy gan lafar gwlad i'w ddweyd yw eu bod yn cael eu galw yn "Lammas Houses," a'u bod yn yr hen amser yn gynullfan pobl ieuainc ar y cyntaf o Dachwedd i ddawnsio a gwneud yn llawen. Ond beth ydyw ystyr Lammas? Gelwir Lammas Street, Caerfyrddin yn Heol Awst. Yr oedd y prif wyliau paganaidd yn Mhrydain gynt yn bedair ac yn cael eu cynal yn Chwefror, Mai, Awst a Thachwedd. Cynelid Gwyl Awst i ddathlu diogeliad

blaenffrwyth y ddaear. Wedi dyfodiad Cristnogaeth parhawyd yr wyl ac oblegid dosbarthiad torthau gelwid Gwyl Awst yn Lam-mas hyny yw Loaf-mas. Tebyg ca'r darganfyddiad lawer o sylw yn y man.

HEN LYTHYR oddiwrth [y Parch.?] P. Pugh at y Parch. Timothy Davies, Caeronen, ger Llanbedr. — (Cyfieithad.)—"Llundain, Gorphenaf 16, 1754. Anwyl Syr. Derbyniais eich ffafr ar y cyntaf cyfisol ac yr wyf yn ddiolchgar i chwi am y drafferth ydych wedi gymeryd er fy mwyn i. Nid oeddwn wedi clywed am afiechyd fy mrawd, ond oddiwrthych chwi, ac nid wyf yn gallu dychmygu paham nad wyf wedi clywed oddiwrtho oddiar hyny, gan iddo addaw gwneud i'w ddeilad, Wm. Jones, y cyfleusdra cyntaf. Ar dderbyniad hwn, ac os yn Llanbedr, gyda dychweliad yr un Post, byddwn ddiolchgar i chwi am linell gyda manylion, a hefyd yn mherthynas i Mr. David Gwynne, am yr hwn nid wyf wedi clywed gair byth, nac oddiwrth fy mam a'm chwaer, yr hyn sydd yn fy synu. Yr oedd J.P. yma tuag wythnos yn ol, ond gall fod gyda chwi erbyn hyn er dim a wn i. Penderfynwyd materion Mr. J. T. Phillips yn ffafr yr etifedd. Clywaf fod Mr. Lloyd, Peterwell yn y dref a bwriadaf gael y pleser o ymweled âg ef yfory. Yn unol a'ch dymuniad ni chymeraf sylw o'r hyn a grybwyllwch. Carwn wybod paham nad oedd Dr. Edwards yn gweini ar fy mrawd fel arferol a pha hyd y mae Dr. Griffiths wedi byw yn y gymydogaeth. Ciniawodd Mr. P. Davies gyda mi ychydig amser yn ol, ac oddiwrth yr hyn a ddywedodd, credaf ei fod ar fin newid ei gyflwr; feallai nad yw hyn yn un newydd i chwi; ond os yw carwn i chwi beidio dywedyd ond ychydig am dano. Y mae Mrs. Pugh yn uno â mi mewn dymuniadau da i Mrs. Davies a chwithau.—Ydwyf, eich gostyngedig was, P. PUGH."

[A fedr rhai o'ch darllenwyr roi goleuni ar y llythyr uchod? Ai'r gweinidog oedd y P. Pugh? Byddai gair am y personau eraill yn ddymunol hefyd.—R.J.J.].

TRAETHODYNAU UNDODAIDD

AR WERTH.

"YR EFENGYL YN OL UNDODIAETH,"

Y Parch. J. Minot Savage, D.D.

"Y DYN CRIST IESU,"

Y Parch. R. J. Jones, M.A.

"CREFYDD CYMRU FYDD,"

Y Parch. W. James, B.A., J.P.

"TUEDDIADAU'R OES,"

Y Parch. David Evans.

"YR EGLWYS A'I GWAITH,"

Y Parch. T. J. Jenkins.

"DDOE, HEDDYW, AC YFORY MEWN CREFYDD."

Y Parch. W. Tudor Jones, Ph.D.

Gellir cael yr uchod oddiwrth OLYGYDD Yr Ymofynydd, Llandyssul.

Pris Ceiniog yr un. Telir y cludiad am ddwsin neu ragor.

J. D. Lewis, Argraffydd, &c., Gwasg Gomer, Llandyssul.

CHRISTR. THOMAS & BROS., Ltd., Bristol,

Have the Leading Reputation in Wales for their

HOUSEHOLD & TOILET SOAPS

THE FAVOURITE QUALITY IS

CHRISTR. THOMAS, & BROS., LTD., BEST PALE

Which, as well as the other sorts, can be obtained, wholesale and retail, from

T. E. JONES & Co., LLANDYSSUL.

OLD SHOP, CRIBYN.

D. J. THOMAS,

General Draper, Milliner, Outfitter, Grocer, Ironmonger, and Boot and Shoe Merchant.

A well Selected Stock of Capes, Jackets and Millinery always on hand. Juvenile and Boys' Suits a Speciality.

Agent for E. W. PRATT & Co., Bristol, Manufacturers of the well-known "Holdfast" Brand of Boots and Shoes.

Funeral Wreaths, Crosses, Anchors, Harps, Lyres,

And other designs.

WEDDING BOUQUETS, &c.,

HARRY COYSH, FLORIST AND SEEDSMAN,

NOTT SQ., CARMARTHEN.

Telegrams—Harry Coysh, Carmarthen.

CHANNING HOUSE.

High School for Girls and Unitarian Boarding School,

HIGHGATE, LONDON, N.

Head Mistress: Miss LILIAN TALBOT, B.A. Honours (Lond.),

To whom all enquiries should be addressed.

Fees per Term: Boarders, £17 17s., including Free Laundry; with Music, £19 19s. Daughters of Unitarian Ministers, £10 13s. 6d.; with Music, £12 5s. Day Scholars, Three to Five Guineas. The above Fees include all Classes for London Matriculation, also Drawing & Class Singing.

☞ Good Playground, Cricket, Tennis, Hockey.

☞ Opportunities afforded for Sight-seeing in London.

Committee of Management—Mrs. W. Blake Odgers, F. J. Nettlefold, Esq., F. Preston, Esq., W. A. Sharpe, Esq., Mrs. W. A. Sharpe, Harold Wade, Esq., Mrs. W. Wooding, R. M. Montgomery, Esq.

Shopping by Post.

By means of our specially organised Post Order Department the Shopping Facilities enjoyed by Town Residents are at the disposal of those who live in the Country Districts, the resources of our huge establishment are, in fact, brought as near as the Nearest Pillar Box.

All orders dispatched, wherever possible, same day as received. No order too large for execution, none too small to receive attention.

Ben Evans & Co. Ltd.,

"THE HOUSE FOR QUALITY,"
SWANSEA.